

# **Cyngor Caerdydd Cynllunio, Trafnidiaeth a'r Amgylchedd**



**Safonau Technegol Caerdydd**

**Safonau Technegol Caerdydd  
26 Tachwedd 2020**

# Safonau Technegol Caerdydd

## CYNNWYS

Adran	Teitl	Tud.
	CYFLWYNIAD	3
A	Y Broses Gymeradwyo Ddylunio Nodweddiadol	5
B	Cynllun Ffordd Datblygiad Preswyl	16
C	Cynllun Ffyrdd Diwydiannol a Masnachol	25
D	Cyngor ar Elfennau Dylunio	28
E	Safonau Adeiladu	35
	Atodiad A: Gofynion Craidd Safonau Priffyrdd	36
	Atodiad B: Lleoliad Pwyntiau Croesi Cerddwyr	47
	Atodiad C: Cynllun o Gyrbau Is a Lonydd Gwrthlif Cerbydau	51
	Atodiad D: Dyluniad Pwyntiau Codi a gollwng Beiciau	56
	Atodiad E: Detholiad o Batrymau a Lliwiau Palmant Botymog	65
	Atodiad F - Manylion Adeiladu Amrywiol	72
	Atodiad G – Safonau Adeiladu Cyngor Caerdydd	80
	<b>Mynegai</b>	<b>81</b>

# Safonau Technegol Caerdydd

## CYFLWYNIAD

1. Deddfwriaeth Berthnasol
  - 1.1. Creu Priffyrdd Newydd ar gyfer eu Mabwysiadu. O dan adran 38 o Ddeddf Priffyrdd 1980, gall yr awdurdod priffyrdd<sup>1</sup> ymrwymo i gytundeb cyfreithiol gyda datblygwr i fabwysiadu priffordd ar yr amod bod y briffordd wedi'i hadeiladu i safon benodol ac i foddhad yr awdurdod priffyrdd lleol.
  - 1.2. Addasiadau neu Welliannau i'r Briffordd Gyhoeddus. O dan adran 278 o Ddeddf Priffyrdd 1980, gall yr awdurdod priffyrdd ymrwymo i gytundeb cyfreithiol gyda datblygwr (er mwyn hwyluso datblygiad) i'r datblygwr naill ai dalu am, neu wneud newidiadau neu welliannau, i'r briffordd gyhoeddus.
2. Proses Gymeradwyo Adran 38 ac Adran 278
  - 2.1. Bydd y broses gymeradwyo yn amrywio fel sy'n briodol i natur a graddfa'r datblygiad a gwneir proses ar wahân fel rheol ar gyfer elfennau Adran 38 ac Adran 278 o'r datblygiad. Fel arweiniad, yn gyffredinol bydd y prosesau hyn yn unol â'r wybodaeth yn Adran A - Y Broses Gymeradwyo Ddylunio Nodweddiadol.
3. Dylunio Ffyrdd Preswyl.
  - 3.1. Dylai egwyddorion cyffredinol y datblygiad fod yn unol â Chanllaw Dylunio i Fyw Caerdydd<sup>2</sup>.
  - 3.2. Lle mae dyluniadau yn cael eu dylanwadu gan gynlluniau fel Poundbury, mae'n bwysig deall a chymhwysio athroniaeth gyfan y dyluniadau hynny, yn hytrach nag elfennau ohonynt mewn modd cosmetig.
  - 3.3. Bydd y dyluniad manwl angen cymhwysu'r safonau a'r canllawiau fel y nodir yn Adran B - Ffyrdd Datblygiad Preswyl.
4. Dylunio Ffyrdd Diwydiannol a Masnachol.
  - 4.1. Dylai'r rhain gael eu dylunio yn unol â chanllawiau yn Adran C - Ffyrdd Ystadau Diwydiannol a Masnachol.
  - 4.2. Dim ond y materion sy'n benodol i'r mathau hyn o ffyrdd a geir yn y canllaw hwn, ac felly dylid cyfeirio ymhellach at Adran B - Ffyrdd Datblygiad Preswyl, sy'n darparu arweiniad ar athroniaeth dylunio.
  - 4.3. Bydd angen cyfeirio hefyd at Adran D - Cyngor ar Elfennau Dylunio, sy'n rhoi cyngor ar weithredu nodweddion priffyrdd cyffredin.

---

<sup>1</sup> Cyngor Caerdydd fel rheol, heblaw am gefnffyrdd lle mai Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol

<sup>2</sup> <https://www.caerdydd.gov.uk/CYM/Eich-Cyngor/Strategaethau-cynlluniau-a-pholisiau/canllaw-dylunio-i-fyw/Pages/default.aspx>

# Safonau Technegol Caerdydd

## CYFLWYNIAD

### 5. Safonau Adeiladu

- 5.1. Datblygodd y Cyngor set o fanylion safonol ar gyfer adeiladu ffyrdd i safon mabwysiadu. Nodir y rhain yn Adran E - Manylion Adeiladu Priffyrdd. Fodd bynnag, mae'r rhain wrthi'n cael eu hadolygu ac efallai y bydd angen cyfeirio at fanylion safonol eraill. Felly, bydd Adran E yn newid o bryd i'w gilydd a bydd angen i'r dylunydd wirio bod ganddynt y wybodaeth ddiweddaraf i osgoi gorfod ailweithio eu dyluniadau.
- 5.2. Rhaid i'r dylunydd chwilio am arweiniad lle mae'n ymddangos bod gwahaniaeth yn y canllaw rhwng y safonau hyn a'r egwyddorion a nodir yn Adrannau A i D, neu'r gofynion yn y dogfennau y cyfeirir atynt yn yr adrannau hynny.
- 5.3. Lle bo angen, efallai y bydd angen i ddylunwyr gyfeirio at y manylion safonol yn y Llawlyfr Adeiladu Gwaith Priffyrdd – Cyfrol 3: Manylion Adeiladu Priffyrdd<sup>3</sup>, ond dylid cytuno ar unrhyw ddefnydd o'r manylion hyn gyda Swyddogion.

---

<sup>3</sup> <http://www.standardsforhighways.co.uk/mchw/vol13/index.htm>

# Safonau Dylunio Technegol Cyngor Caerdydd

## Adran A - Y Broses Gymeradwyo Ddylunio Nodweddiadol

- A1. Proses Gymeradwyo Adran 278 ac/neu Adran 38
- A2. Bydd yr ymgeisydd yn cael cyfarwyddiadau penodol ar gyfer pob cynllun y mae'r canlynol yn enghraifft nodweddiadol ar ei gyfer.
- A3. Prif Broses Gyfreithiol  
Gofynion Cyfarwyddyd Gyfreithiol (gan tybio y rhoddir caniatâd cynllunio dilys):
- 3.1. 'Llythyr o Fwriad' y Datblygwr i ymrwymo i Gytundeb A278/ 38 dan Ddeddf Priffyrdd 1980 gyda Chyngor Caerdydd. I gynnwys:
- a) Manylion y Datblygwr: - Enw a chyfeiriad.
  - b) Rhif Cyfeirnod Caniatâd Cynllunio
  - c) Manylion Cynrychiolwyr Gyfreithiol
  - d) Manylion Gwarantwr (os oes ar gael)
  - e) Ymgynghorwyr Peirianeg (os yw'n hysbys)
  - f) Prif Gontractwr (os yw'n hysbys)
  - g) D.S. Rhoddir testun 'Llythyr o Fwriad' pro-fforma yn yr atodiad i'r adran hon.
- 3.2. Rhestr Luniadau. I'w chytuno rhwng Ymgynghorwyr Sifil a Pheiriannydd Cyngor Caerdydd (CC) (Swyddog arweiniol y broses).
- 3.3. Chwe chopi lliw o'r Cynllun Cyflwyno / Adfeddu Tir (os yw'n berthnasol)
- 3.4. Prif Rwymedigaethau Ariannol:-
- a) Swm Cynhaliaeth Ohiriedig (CMS).Yn berthnasol i rwymedigaethau cynnal a chadw ychwanegol.
  - b) Ffi Peirianeg ac Arolygu.
  - c) Ffi Gyfreithiol.
  - d) Ffi Gorchymyn Rheoli Traffig Dros Dro (os yw'n berthnasol).
  - e) Ffi Gorchymyn Rheoli Traffig (os yw'n berthnasol).
  - f) Ffi Ymgynghoriad GosteguTraffig (Deddf 1999) (os yn berthnasol).
  - g) Bond.
  - h) Cyfnod 12 mis o atebolrwydd cynnal a chadw a diffygion y datblygwr oni nodir yn wahanol gan y broses gynllunio a'r ddeddfwriaeth ac ati.
- 3.5. Amser rhagamcanol i'w gwblhau - Tua 3 i 6 mis o ddyddiad cyfarwyddyd Tîm Datblygu CC i Dîm Gyfreithiol CC. **Gan dybio NA fydd unrhyw broblemau/oedi o ran perchnogaeth tir.**
- A4. (Dim ond pan fo'n berthnasol) Cais Proses Gyfreithiol Arbennig i Gau Priffyrdd (Deddf Cynllunio Gwlad a Thref A247)
- 4.1. Datblygwr neu ei asiant i baratoi a gwneud cais ffurfiol i Lywodraeth Cymru mewn ymgynghoriad â CC, h.y. cau tir priffyrdd cyhoeddus presennol.

# Safonau Dylunio Technegol Cyngor Caerdydd

## Adran A - Y Broses Gymeradwyo Ddylunio Nodweddiadol

- 4.2. Bydd y cais hwn yn amodol ar y caniatâd cynllunio gwreiddiol gan mai pwrpas penodol yr A247 yw dileu priffyrdd er mwyn galluogi gweithredu datblygiad cymeradwy.
- A5. (Dim ond pan fo'n berthnasol) Proses Gyfreithiol Arbennig (Trosglwyddo Cytundeb Tir)
- 5.1. Cyfreithwyr y datblygwr i gysylltu â Gwasanaethau Cyfreithiol y Cyngor (Cyswllt fel isod) i drafod a chytuno ar delerau cytundeb drafft ar gyfer trosglwyddo tir.
- 5.2. Bydd cwblhau cytundeb o'r fath yn gyfreithiol yn amodol ar gwblhau'r Broses Gyfreithiol Gyffredinol ac unrhyw Broses Gyfreithiol A247 yn foddhaol, yn ogystal â chwblhau'r gwaith priffyrdd yn y Broses Gyfreithiol Gyffredinol yn foddhaol.
- 5.3. Y pwyntiau cyswllt sy'n cefnogi'r broses hon yw Mark Coleman a Sue Colston ar rif ffôn 2078 8559.
- A6. **Cymeradwyaeth Dechnegol / Proses Derbyn Amodol** (Gan dybio bod Llythyr o Fwriad yn cael ei roi i CC):
- 6.1. Trafodaeth barhaus rhwng Ymgynghorydd Sifil/Asiant Technegol penodedig (a benodir gan y Datblygwr neu ei asiant) a CC i gyflawni pecyn dylunio manwl llawn yn unol â gofynion mabwysiadu CC a'r amcanion a'r amodau cynllunio.
- 6.2. Taliad Ffi Dros Dro gan y Datblygwr - CCCCC i gynghori ond fel arfer o leiaf £2,000.00 i £10,000.00. Yn yr achos hwn mae'n debygol o fod yn £(gwerth yn amodol ar asesiad o faint a chymhlethdod).
- 6.3. Cwblhau unrhyw Fodelu Traffig sy'n weddill neu unrhyw asesiadau trafndiaeth sy'n weddill yn foddhaol. (Os yw'n berthnasol)
- 6.4. CC yn derbyn y Cynlluniau GA a ategir gan Archwiliad Lled Lonydd Cerbydau ac Archwiliad Diogelwch ar y Ffyrdd (RSA)<sup>4</sup> Cam 1 (Cyfuniad posibl o Gam 1 a 2 ar gyfer cynlluniau bach) ac Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb. (Gan ddibynnu ar gwmpas y gwaith – i'w gadarnhau gan CC). Yr un cynllun i'w ddefnyddio i gyflawni amodau cynllunio perthnasol
- 6.5. Cychwyn a chwblhau'r broses cymeradwyo dyluniad fanwl gan gydymffurfio'n llawn â gofynion mabwysiadu CCCCC, amcanion cynllunio, manylebau a safonau yn seiliedig ar restr luniadu y cytunwyd arni ymlaen llaw ac (ar gyfer cynlluniau mawr) Strategaeth Cymeradwyo Grwpiau Ffocws yn unol ag 8.2.
- 6.6. Lle y bo'n briodol, Archwiliad Cyfunol<sup>4</sup> (gan gynnwys Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn 6.4).

---

<sup>4</sup> Archwiliadau Cyfun i'w cyflawni yn unol â Llawlyfr Archwilio Cyfun CC

# Safonau Dylunio Technegol Cyngor Caerdydd

## Adran A - Y Broses Gymeradwyo Ddylunio Nodweddiadol

- 6.7. Ar gamau priodol y project: RSA Cam 2, RSA Cam 3 ac RSA Cam 4 y Gwaith.
- 6.8. Asesu a dylunio goleuadau stryd<sup>5</sup>. Gellir dirprwyo hwn i Adran Goleuadau Stryd CC, ac ar sail hyn rhoddir manylion y dyluniad i'r prif ymgynghorydd sifil ar gyfer gwaith S278/S38 i'w cynnwys yn y pecyn cyffredinol. Fel arall, gellir ystyried dylunwyr cymeradwy eraill a restrir isod ar gyfer ei gaffael:
- a) Capita
  - b) CGC
    - Y datblygwr a'i asiantau cyflawni (Ymgynghorwyr/Contractwyr ac ati) sy'n parhau'n gyfrifol am ymgynghori â CGC ac unrhyw berchnogion cyflenwad pŵer presennol eraill ar gyfer caffael datgysylltiadau a chyflenwadau pŵer/ceblau newydd
    - Bydd goleuadau'r stryd yn cynnwys ac yn cefnogi System Rheoli Canolog Phillips a weithredir ar hyn o bryd gan Adran Goleuadau Stryd y Cyngor.
- 6.9. Arwyddion Traffig, cyfathrebu a theledu cylch cyfyng trwy ddylunydd cymeradwy:-
- a) Siemens - Signalau traffig
  - b) Dinniq – Signalau traffig
  - c) CK Com. – Offer Cyfathrebu
- 6.10. Cais Gorchymyn Rheoli Traffig (GRhT) - Amser cwblhau 6 i 12 mis gan ddibynnu ar gymhlethdod a gwrthwynebiadau. Noder, fel y dywedir isod, na chaniateir unrhyw arwyddion neu farciau ffordd sy'n gysylltiedig â TRO hyd nes y caiff y TRO ei selio ac felly argymhellir cais cynnar.
- 6.11. Bydd yr amser rhagamcanol i gwblhau'r gymeradwyaeth dechnegol – 4 i 6 mis ar gyfer cynlluniau bach a 6 i 18 mis ar gyfer cynllun canolig i fawr – yn dibynnu ar gamau, cwmpas a chymhlethdod y gwaith. Dim ond os ceir arian ychwanegol gan y Datblygwr i gefnogi'r broses o gaffael adnoddau ychwanegol y gellir cyflymu hyn.
- 6.12. Rhoddir Amodau Derbyn Amodol Nodweddiadol yn A12 isod:

### A7. Pwyntiau Cyswllt:

- 7.1. Llythyr o Fwriad: - Paul Carter

Copi i: Saeid Valivand

029 2087 3350

Mr Paul Carter,

Pennaeth Trafnidiaeth

---

<sup>5</sup> Fel rheol caiff hyn ei ddirprwyo i CC - Adran Goleuadau Stryd, ond bydd yn destun i'w cymeradwyaeth

# Safonau Dylunio Technegol Cyngor Caerdydd

## Adran A - Y Broses Gymeradwyo Ddylunio Nodweddiadol

Cynllunio Strategol, Priffyrdd, Traffig a Thrafnidiaeth,  
Ystafell 301,

Cyngor Caerdydd,  
Neuadd y Sir,  
Caerdydd  
CF10 4UW

- 7.2. Cytundeb Cyfreithiol: - Kerry Pain 029 2087 3641  
(\* Ni ddylid cysylltu â Kerry Pain cyn cyhoeddi'r 'Llythyr Cadarnhau Cyfarwyddiadau Cyfreithiol' atoch (Y Datblygwr / Ymgynghorwyr / Asiantwyr)
- A8. Materion Technegol:
- 8.1. CYMERADWYAETH Trefniadau Cyffredinol Rhagarweiniol (GA) – Martin Smith (029 2087 37973795) / Chris Hanson (029 2087 3793) / Saeid Valivand (029 2087 3350) / Mark Foweraker (029 2078 8522) / Greg Loughlin (029 2233 0111)
- 8.2. Bydd cynlluniau mwy yn cael eu rheoli trwy ddefnyddio Strategaeth Cymeradwyo Grŵp Ffocws. Bydd ymgynghorwyr y Datblygwr yn gyfrifol am gydlynu a rheoli rhyddhau gwybodaeth a'r broses gymeradwyo gyda'r Grwpiau Ffocws a chadw'r Grŵp Dylunio Priffyrdd a Diogelwch Ffyrdd yn gyfredol â chynnydd. Tynnir Grwpiau Ffocws nodweddiadol ar gyfer cynllun mawr o'r canlynol, ond byddant bob amser yn cynnwys Grŵp f):
- Telemateg (Signalau traffig, Teledu Cylch Cyfyng a Chyfathrebiadau)
  - Marciau Ffyrdd ac Arwyddion Ffyrdd
  - Goleuadau Stryd
  - Draeniad Priffyrdd
  - Tirweddu Meddal
  - Dylunio Priffyrdd a Diogelwch ar y Ffyrdd
- 8.3. Cymeradwyaeth Dylunio Manwl GA – Greg Loughlin (029 2233 0111 G.Loughlin@caerdydd.gov.uk neu Mark Foweraker (029 2078 8522) [m.foweraker@caerdydd.gov.uk](mailto:m.foweraker@caerdydd.gov.uk)
- 8.4. RSAs – Mark Foweraker
- A9. Cydymffurfio/ Gofynion Cyn-cychwyn:
- Cwblhau'r Cytundeb Cyfreithiol.
  - Cwblhau'r broses gymeradwyo dechnegol.
  - Cymeradwyaeth Rheoli Traffig (TM) i gydymffurfio'n llawn â Chfyngiadau Gweithio Rheoli Rhwydwaith CC ar gyfer Llwybrau Traffig Sylfaenol.
  - Rhaid i'r prif gontractwr priffyrdd ar gyfer y Gwaith a'r isgontractwyr arbenigol cysylltiedig fod ar Restr Contractwyr



# Safonau Dylunio Technegol Cyngor Caerdydd

## Adran A - Y Broses Gymeradwyo Ddylunio Nodweddiadol

Cymeradwy priodol y Cyngor neu Fframwaith De Ddwyrain Cymru. Dim ond os ydynt yn bodloni'r gofynion cymeradwyo canlynol ymlaen llaw y gellir penodi contractwyr eraill amlddisgyblaethol eraill:

- a) Atebolrwydd-Yswiriant atebolrwydd cyhoeddus ayb. £10M yr hawliad.
  - b) Ansawdd - Lleiafswm o 2 eirda ysgrifenedig gan awdurdodau priffyrdd eraill sy'n cadarnhau cymhwysedd a gallu i reoli a chyflenwi gwaith o ansawdd uchel o fewn prif lwybrau priffyrdd cyhoeddus.
  - c) Cofrestru ac Achrediadau I&D gan gynnwys Ardystiad Goruchwylwyr Gwaith Ffyrdd a Stryd.
- 9.5. Bydd contractwyr arbenigol goleuadau stryd ar Restr Gymeradwy CC.
- 9.6. Bydd contractwyr arbenigol telemateg ar restr gymeradwy CC.
- 9.7. Bydd contractwyr arbenigol Tirlunio Meddal ar restr gymeradwy CC.

### A10. Rhestr Luniadau nodweddiadol/ generig:

- 10.1. Cynlluniau Arolwg a Lleoliad Presennol -A1
- 10.2. Cynllun Arolwg Ffotograffig Presennol - A1 (os oes angen)
- 10.3. Cynllun Hysbysfwrdd, Adran-X a Threfniant Gosod - A1 (os yw'n berthnasol)
- 10.4. Cynlluniau Trefniadau Cyffredinol -A1s
- 10.5. Cynlluniau Goleuadau Stryd, Marcio Ffyrdd ac Arwyddion -A1s
- 10.6. Cynllun Draenio a Manylion -A1s.
- 10.7. Cynlluniau Palmant a Gorffeniadau -A1s.
- 10.8. Manylion Adeiladu -A1s.
- 10.9. Gosod allan a Lefelau -A1s
- 10.10. Map Cyfuchlin. A1s.
- 10.11. Croes-doriadau.A1s.
- 10.12. Cynllun Cyrbau a Sianelau-A1
- 10.13. Tirlunio Meddal a Manylion - A1 (os yw'n berthnasol)
- 10.14. Gwasanaethau Presennol.-A1
- 10.15. Gwasanaethau-Dargyfeirio, Diogelu a Newydd -A1
- 10.16. Llwybrau Ehangylch.-A1
- 10.17. Cynlluniau Clirio'r Safle. A1s.
- 10.18. Llyfryn Manyleb (Goleuadau Stryd)-A4
- 10.19. Cynllun Cyflwyno/Adfeddu Tir (os yw'n berthnasol) - A1
- 10.20. Adran 142 Cynllun Trwydded A1(os yn berthnasol) – A1
- 10.21. Cynllun TRO (os yn berthnasol) A3 i A1

### A11. Manylion Cyswllt Ymlaen Llaw Datblygiadau Eraill CC:

# Safonau Dylunio Technegol Cyngor Caerdydd

## Adran A - Y Broses Gymeradwyo Ddylunio Nodweddiadol

- 11.1. Trwydded Craen Tŵr – Rheoli Asedau ebost:  
AssetManagement@cardiff.gov.uk
  - 11.2. Trwydded Pentyrri – Rheoli Asedau ebost:  
AssetManagement@cardiff.gov.uk / Ryan Williams (029 2233 0215 ryanwilliams@caerdydd.gov.uk)
  - 11.3. Hysbysiad Agor Ffordd a Thrwydded S50 – Kadie Irish (029 2233 0213 KIrish@caerdydd.gov.uk / Samantha Dacey (029 2233 0125 Samantha.Dacey@ caerdydd.gov.uk)
  - 11.4. Rheoli Traffig – Kadie Irish (029 2233 0213 KIrish@caerdydd.gov.uk ) & Samantha Dacey (029 2233 0125 Samantha.Dacey@ caerdydd.gov.uk)
  - 11.5. Gorchmynion Rheoleiddio Traffig Parhaol (TROs) – Helen Grainge (029 2087 3250 Helen.Grainge@ caerdydd.gov.uk) / Carwyn Harvard (029 2087 3353 CHarvard@caerdydd.gov.uk)
  - 11.6. Gorfodi Lonydd Bysus, Matt Harries –  
(Matthew.Harrison@caerdydd.gov.uk)
  - 11.7. Signalau Traffig – Dave Kinnaird (D.Kinnaird@caerdydd.gov.uk)
  - 11.8. Goleuadau stryd – Matt Davies (MatDavies@caerdydd.gov.uk)
  - 11.9. Safleoedd Bysus – Joe Stitfall –(JStitfall@caerdydd.gov.uk) / Gareth Stevens (gstevens@cardiffbus.com)
- A12. Cyhoeddi Cymeradwyaeth Dechnegol / Derbyniad Amodol
- 12.1. Unwaith y bydd y pecyn dylunio, fel y cyfeirir ato uchod, wedi'i baratoi i safon dderbyniol, gan gynnwys y lluniadau a llyfryn y fanyleb, cyhoeddir derbyniad amodol. Fel arfer, bydd telerau'r derbyniad hwn yn dilyn y fformat isod.
    - a) Gallwn gadarnhau bod y pecyn dylunio manwl a gynrychiolir gan y rhestr luniadau amgaeëdig yn cael ei dderbyn yn amodol mewn egwyddor, heb amharu ar unrhyw amodau cynllunio sy'n weddill fel y nodir isod.
    - b) Nid yw hyn yn amharu ar eich atebolrwydd fel Dylunydd y gwaith.
    - c) Mae'r derbyniad hwn yn destun yr amodau canlynol:
      - Nid yw'r derbyniad hwn yn amharu ar y ffaith bod y dyluniad yn cydymffurfio'n llawn â'r manylion a gyflwynwyd fel rhan o'r caniatâd cynllunio a chyflawni'r materion a gadwyd yn ôl yn y cyflwyniadau cynllunio manwl. Yn benodol, mae hyn yn cynnwys paramedrau mynediad cymeradwy a'r amcanion trafndiaeth gyhoeddus cyffredinol sy'n gysylltiedig â'r caniatâd datblygu.
      - \*NAILL AI Bydd y Datblygwr, ar ei draul ei hun, yn cynnal ymgynghoriad manwl gan gydymffurfio'n llawn ag adrannau perthnasol Deddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 a'r Codau Ymarfer atodol dyddiedig Mehefin

# Safonau Dylunio Technegol Cyngor Caerdydd

## Adran A - Y Broses Gymeradwyo Ddylunio Nodweddiadol

1992 ac Ionawr 2008 a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ar y cyd â'r holl Ymgymerydd Statudol presennol a chwmnïau cyfleustodau cyhoeddus y bydd cynnal y Gwaith hwn yn effeithio arnynt neu mae'n debygol o effeithio arnynt. Er mwyn osgoi amheuaeth, bydd ymgynghoriad o'r fath yn cael ei gynnal a'i gwblhau cyn i'r Gwaith ddechrau.

- \*NEU Rydych chi a'ch cleient(iaid) wedi cynnal yr holl ymgynghoriad angenrheidiol ac wedi rhoi hysbysiadau ffurfiol i bob ymgymerydd statudol ar gyfer yr holl wasanaethau y gallai'r gwaith effeithio arnynt a bod y pecyn hwn yn cynnwys eu gofynion fel y'u cymeradwywyd ganddynt.
- \*Gwnaed cais am y Gorchymyn/Gorchymynion Rheoli Traffig angenrheidiol a rhoddwyd cyfeirnod C i chi. Mae gweithredu'r gwaith sy'n gysylltiedig â'r GRhT yn destun i'r amodau isod.
- \*Ni fydd unrhyw arwyddion traffig na marciau ffordd sy'n gysylltiedig â Gorchymyn Rheoli Traffig (GRhT) Cyf C\*\* yn cael eu codi na'u gosod nes bod gennyh gadarnhad ffurfiol bod y GRhT wedi'i selio. Gellir ystyried bod unrhyw waith o'r fath yn "rhagderfynu" y broses GRhT a allai arwain at fethiant y broses GRhT. Byddai methiant o'r fath yn ei gwneud yn ofynnol i'r datblygwr neu ei asiantau dalu am ddileu'r holl arwyddion a marciau o'r fath a chostau ychwanegol ar gyfer proses GRhT ddilynol, gan gynnwys yr holl gostau hysbysebu, cyfreithiol a gwaith.
- Bydd y Datblygwr a'r Dylunydd yn gyfrifol am chwilio am unrhyw wrthdaro corfforol rhwng lleoliadau siambr gwasanaeth newydd a'r amcanion dylunio manwl eraill (megis, ymhlith enghreifftiau eraill, seilwaith telemateg, lleoliadau croesi cerddwyr (palmentydd botymog a llwybr ar draws y lôn gerbydau), arwyddion traffig a goleuadau stryd).
- Bydd gosod goleuadau stryd wedi'u haddasu a'r arwyddion ffyrdd wedi'u goleuo yn cael eu Gosod, eu Profi a'u Comisiynu yn unol â BS7671 "Gofynion ar gyfer Gosodiadau Trydanol – Rheoliadau Gwifrau IET (Seithfed Argraffiad) gyda thystysgrifau prawf priodol yn cael eu rhoi i CC ar ôl cwblhau'r gwaith.
- Ni fydd eich cynnig dylunio yn arwain at unrhyw byllau dŵr wyneb o fewn cwmpas y gwaith.
- Rydych wedi cael caniatâd ffurfiol a chaniatâd cysylltu ar gyfer unrhyw gysylltiad draenio priffyrdd newydd â

# Safonau Dylunio Technegol Cyngor Caerdydd

## Adran A - Y Broses Gymeradwyo Ddylunio Nodweddiadol

seilwaith draenio sy'n eiddo i Dŵr Cymru neu unrhyw ddiwygiadau eraill i'r un asedau sy'n eiddo i Ddŵr Cymru ac sy'n cael eu cynnal a'u cadw ganddo.

- Byddwch chi a'ch cleientiaid yn rhoi gwybod i berchnogion am unrhyw gorchuddion a fframiau gwasanaethu sydd wedi'u difrodi/sy'n anniogel o fewn ffiniau'r gwaith, ymlaen llaw, a fyddai'n gofyn am waith newydd gan y perchnogion.
- Byddech chi'n addasu (codi a gostwng) gorchuddion a fframiau gwasanaethu presennol a allai fod yn angenrheidiol i sicrhau proffiliau a lefelau ffyrdd a throedffyrdd diogel a derbynol.
- Bydd y gwaith o ymgymryd â'r project a'i gynllun rheoli traffig cysylltiedig yn cael ei gyflawni gan brif gontractwyr cymeradwy a chymwysedig, ac is-gontractwyr a gosodwyr arbenigol mewn cydymffurfiaeth lawn â'r cyfyngiadau gwaith sy'n berthnasol i'r rhwydwaith priffyrdd lleol.
- Bydd yr holl addasiadau neu ddiwygiadau i'r dyluniad, boed hynny oherwydd amodau safle annisgwyl neu unrhyw reswm arall, yn cael eu trafod a'u cytuno â'r Cyngor ymlaen llaw cyn eu gweithredu.
- Yn yr un modd ag unrhyw gynllun priffyrdd tebyg arall, bydd y gwaith yn destun Archwiliadau Diogelwch ar y Ffyrdd Cam 3 a Cham 4 yn ystod y camau ôl-gwblhau perthnasol.
- \*Oherwydd maint a hyd y gwaith dros dro, bydd angen iddo fod yn destun RSA Cam 3 cyn gynted ag y bo'n ymarferol unwaith y bydd y gwyrriad yn agored i draffig.
- Mae eich dyluniad yn cydymffurfio â'r canlynol: a) Deddf Cydraddoldebau 2010 (ystyriaethau'r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd), b) Adran 1.13 o Reoliadau Adeiladu 2010 Modelau Darparu Amgen Rhan M1, c) Canllawiau ar gyfer Symudedd Cynhwysol 3.11 a Chanllawiau ar gyfer Defnyddio Arwynebau Palmant Botymog 1.5.1.2.
- Mae'r pecyn hwn a'i fodel dylunio priffyrdd yn barhad o'r briffordd bresennol a/neu newydd gerllaw fel rhan o fodel parhaus a chydymffurfiol cyffredinol ar gyfer manylion cydweddu llorweddol a fertigol. Yn ogystal, rhaid iddo gydweddu yn yr un modd â'r holl bwyntiau mynediad preifat a chyhoeddus yn ogystal ag unrhyw ffens ffin breifat a wal y mae'r Gwaith yn effeithio arni.
- \*Rhaid i chi gyflwyno copi o set lawn o'r lluniadau (wedi'u hargraffu ar eu maint llawn a'u plygu i A4) a

# Safonau Dylunio Technegol Cyngor Caerdydd

## Adran A - Y Broses Gymeradwyo Ddylunio Nodweddiadol

dogfennau (wedi'u rhwymo â staplau lle bo'n briodol) ar CD ar gyfer ein cofnodion archif.

\*Dilëer yn ôl yr angen

\*\*Dylid cyflwyno'r rhif hwn unwaith y bydd y cais wedi dod i law.

### A13. Contractwyr Cymeradwy:

#### 13.1. Contractwyr Cymeradwy

##### a) Contractwyr Cyffredinol ar Fframwaith De-ddwyrain Cymru:

- Alun Griffiths
- Calibre
- Dyre & Butler
- ERH
- Horan
- North Midland
- Tarmac

##### b) Fodd bynnag, nid yw hyn yn ein hatal rhag arfarnu ystyriaeth o gontractwyr o'r tu allan i'r trefniadau fframwaith, ac mae'r contractwyr canlynol wedi cael eu defnyddio'n llwyddiannus ar gyfer projectau datblygu. Unwaith eto, mae hyn yn rhoi mwy o hyder i ni o ran cymhwysedd contractwyr:

- Walters
- Randalls
- Rapid Grid
- WDL

#### 13.2. Contractwyr Tirlunio Meddal Cymeradwy

- Landcraft
- Afan
- Gerald Davies
- Inscapes

#### 13.3. Contractwyr/Dylunwyr Telemateg Cymeradwy

- Siemens
- Dynniq
- CK Com (cyfathrebu yn unig)

#### 13.4. Dylunwyr Goleuadau Stryd Cymeradwy:

- Capita
- CGC
- Ar y cyd rhwng CC a CGC (Tîm Dylunio Mewnol)

#### 13.5. Contractwyr Goleuadau Stryd Cymeradwy:

- Centregreat Ltd., 16 Village Farm Road, Ystâd Ddiwydiannol Village Farm, Pen-y-bont ar Ogwr, CF33

# Safonau Dylunio Technegol Cyngor Caerdydd

## Adran A - Y Broses Gymeradwyo Ddylunio Nodweddiadol

6BL: Cysylltwch â Julian O'Brien 01656 746 444 (Ffacs 01656 749 838)

- Southern Electric Contracting. Tŷ Golau, Ystâd Ddiwydiannol Tyn y Bonau, Pontarddulais, Abertawe, SA4 8SG: Cysylltwch ag Adrian Percival 01792 882 227 (Ffacs 01792 885 556)
- Goleuadau Allanol, Uned 5A a B George Thomas Ave, Ystâd Ddiwydiannol Brynmenyn, Brynmenyn, Pen-y-bont ar Ogwr, CF32 9SQ: Cysylltwch â Leighton Coates 01656 720 211 (Ffacs 01656 729 611)
- P.S. Lighting Solutions Ltd., Unedau 10-11, Ystâd Ddiwydiannol Ffaldau, Blaengarw, ger Pen-y-bont ar Ogwr, CF32 8NQ: Cysylltwch â Paul Samuel 01656 871 366 (Ffacs 01656 871 466)

# Safonau Technegol Caerdydd

Adran A - Y Broses Gymeradwyo Ddylunio Nodweddiadol

Ein Cyf:

[Cyfeiriad y Cwmni]  
[neu Bapur Pennawd]

[Dyddiad]

Mr Paul Carter  
Pennaeth Trafnidiaeth  
Cynllunio, Trafnidiaeth a'r Amgylchedd  
Ystafell 301, Neuadd y Sir  
Cyngor Caerdydd  
CAERDYDD  
CF10 4UW

Nodyn Gall [Math] fod yn: A278; Mini A278;  
A278/38 cyfun; A38 neu fel arall y cytunwyd  
arno.  
Lle nad yw manylion Gwarantwr,  
Ymgynghorwyr, neu Gontractwr wedi'u  
penodi eto, dylid nodi hyn yn hytrach na  
dileu'r paragraffau.  
**Dilëwch y nodyn hwn cyn anfon y llythyr  
hwn**

Annwyl Mr Carter

**Yngh: [Enw'r Cynllun]**

## **Llythyr o Fwriad i Ymrwymo i Gytundeb [Math] o dan Ddeddf Priffyrdd 1980 gyda Chyngor Caerdydd**

Rydym trwy hyn yn eich hysbysu o'n bwriad i wneud Cytundeb [Math] ar gyfer gwaith i [natur y gwaith] sy'n gysylltiedig â [ail] datblygiad [disgrifiad o'r safle neu'r cyfeiriad], Caerdydd. Felly, rhown y manylion canlynol i chi;

- Manylion y Datblygwr - [Enw Cyswllt a Chyfeiriad lle'r anfonir yr ohebiaeth]
- Cyfeirnod Caniatâd Cynllunio - [Cyfeirnod neu ddisgrifiad o'r ddeddfwriaeth alluogi berthnasol sy'n rhoi caniatâd ar gyfer y gwaith]
- Cynrychiolydd Cyfreithiol – [Enw Cyswllt a Chyfeiriad lle'r anfonir yr ohebiaeth gyfreithiol]
- Manylion Gwarantwr – [Enw Cyswllt a Chyfeiriad lle'r anfonir yr ohebiaeth gyfreithiol]
- Ymgynghorwyr Peirianeg – [Enw Cyswllt a Chyfeiriad lle'r anfonir yr ohebiaeth]
- Manylion y Prif Gontractwr - [Enw'r Prif Gontractwr os yw wedi'i benodi a Chyfeiriad y Cwmni Cofrestredig lle gellir anfon yr ohebiaeth gyfreithiol iddo]

Os oes angen unrhyw wybodaeth bellach arnoch, rhowch wybod i mi

Yn gywir

[Enw Cyswllt]  
[Rôl Cyswllt]

# Safonau Dylunio Technegol Cyngor Caerdydd

## Adran B – Cynllun Ffordd Datblygiad Preswyl

### B1. Athroniaeth Ddylunio

- 1.1. Er gwaethaf unrhyw raddiant a roddir yn y safonau hyn neu gyfeiriadau eraill, mae'n rhaid ystyried gofynion y Canllawiau Dylunio i'r Ddeddf Teithio Llesol (Cymru) a chyhoeddiad y DfT, Symudedd Cynhwysol. Yn benodol, os yw graddiant y ffordd gerbydau yn fwy na'r hyn a roddir yn y dogfennau hynny, yna rhaid darparu llwybrau amgen, cyfleus a diogel eraill sy'n darparu'r un lefel mynediad gyffredinol â'r rhwydwaith y ffordd gerbydau.
- 1.2. Bydd cymhwysiad priodol yr egwyddorion a roddir yn y Canllawiau Dylunio Parth Cartref (HZ),<sup>6</sup> Llawlyfr Strydoedd (MfS),<sup>7</sup> Llawlyfr Strydoedd 2 (MfA2),<sup>8</sup> neu'r Llawlyfr Dylunio Ffyrdd a Phontydd (DMRB)<sup>9</sup> yn dibynnu ar sawl agwedd, a chymhwyso Canllaw Dylunio i Fyw Caerdydd<sup>10</sup>. Hefyd gall dogfennau gwahanol fod yn briodol ar gyfer gwahanol elfennau o ddatblygiad, yn enwedig os yw'n fawr. Felly, bydd o fudd i ddatblygiad llwyddiannus y cynllun os trafodir y materion hyn gyda'r swyddogion sy'n delio â chytundebau Adran 278 a Adran 38 cyn gynted â phosib.
- 1.3. Rhaid i ddyluniadau hefyd ystyried Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 a'r canllawiau statudol a gyhoeddwyd o dan y Ddeddf honno<sup>11</sup> (ATWA). Rhaid i ddyluniad cynlluniau hefyd ystyried y gofynion a'r canllawiau yng Nghanllaw Dylunio Beicio Caerdydd (CCDG) lle nad yw ATWA yn berthnasol.
- 1.4. Dylai dyluniadau ar gyfer datblygiadau y ceir mynediad iddynt o ffyrdd dosbarthu gyfyngu ar y pellter cerdded rhwng yr eiddo a'r agosrwydd isaf bosib at wasanaeth bws uniongyrchol i tua 300 metr, a rhaid iddynt ystyried ehangu posib y safle yn ddiweddarach. Dylid goleuo llwybrau o'r fath a bodloni gofynion Diogelu Drwy Ddylunio ar gyfer defnydd o'r llwybrau hyn gan bobl o bob oed. Gellid cynyddu hyn ar safleoedd sydd â graddiant isel fel y cytunwyd arno gyda swyddogion.
- 1.5. Rhaid i gynllun y celfi stryd a'r dewis o ddeunyddiau ystyried gofynion Llawlyfr Tir y Cyhoedd Caerdydd (CPRM). Rhaid i hyn gymryd i ystyriaeth pa un o'r pedair Ardal Cymeriad Tir y Cyhoedd y mae'r cynllun ynddo.
- 1.6. Gan y gellid nodi amryw o safonau mewn dyluniad, rhaid i bob lluniad cynllun a disgrifiadau dylunio nodi'n glir pa safonau a ddefnyddiwyd ym mhob ardal.
- 1.7. Rhaid i'r holl newidiadau i'r briffordd, gan gynnwys ffyrdd newydd, fod yn destun proses Archwiliad Diogelwch Ffyrdd naill ai'n unol â'r safon yn y Llawlyfr Dylunio Ffyrdd a Phontydd, neu Lawlyfr Archwiliad Diogelwch Ffyrdd Cyngor Caerdydd.
- 1.8. Rhaid i bob cynllun fod yn destun Dadansoddiad Effaith ar Gydraddoldeb (EqIA) fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, a dylid trafod y rhain gyda swyddogion priodol y Cyngor.
- 1.9. Gall datblygwyr ganfod hefyd y bydd cwblhau Archwiliad Cyfun (CA) yn cynorthwyo i sicrhau bod cofnod yr ystyriwyd gofynion Deddf Cydraddoldeb 2010 a deddfwriaeth a chanllawiau eraill.

<sup>6</sup> Sefydliad Peirianwyr Corfforedig Priffyrdd 2002

<sup>7</sup> Adran Drafnidiaeth 2007

<sup>8</sup> Sefydliad Siartredig Priffyrdd a Thrafnidiaeth 2010

<sup>9</sup> Dyddiadau amrywiol yr Adran Drafnidiaeth

<sup>10</sup> Cyngor Caerdydd, Mai 2015

<sup>11</sup> Canllawiau Dylunio: Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013



# Safonau Dylunio Technegol Cyngor Caerdydd

## Adran B – Cynllun Ffordd Datblygiad Preswyl

1.10. Rhoddir cyngor ar weithredu elfennau dylunio manwl yn Adran D - Cyngor ar Elfennau Dylunio.

# Safonau Dylunio Technegol Cyngor Caerdydd

## Adran B – Cynllun Ffordd Datblygiad Preswyl

### B2. Hierarchaeth a Safonau Ffyrdd

#### **Math 1: Darparu mynediad i a thrwy ardaloedd preswyl gan gynnwys trafndiaeth gyhoeddus**

- Mae'r ffordd hon yn caniatáu trafndiaeth gyhoeddus.
- Mae hyn yn rhan o'r rhwydwaith yn y datblygiad sy'n cysylltu â'r rhwydwaith Prif Ffordd bresennol, neu'n gwella'r rhwydwaith hwnnw, p'un a yw â Rhif-Dosbarth ai peidio.
- Disgwylir i'r cyflymder dylunio fod yn 30 mya gyda rhai ardaloedd o bosib yn 20 mya. Fodd bynnag, ystyrir bod 20 mya yn briodol os oes cyffyrdd niferus, parcio rheolaidd, ffyrdd preswyl, neu hyd cyfyngedig. Ni ddylai fod â chyfyngiad uwch ar ei bennau na'r ffordd y mae'n cysylltu â hi.
- Lled y ffordd gerbydau yw 6.3 metr gyda gwaharddiad parcio heblaw mewn baeau.
  - Gellir darparu'r manau parcio hyn ar un neu ddwy ochr y ffordd.
  - Lle mae angen baeau llwytho, rhaid iddynt gael eu hamddiffyn gan Orchmynion traffig, a bod yn lletach.

#### **Math 2: Darparu mynediad i a thrwy ardaloedd preswyl i ddatblygiadau mwy**

- Mae hyn yn cysylltu dosbarthiadau Math 1 arall o Ffordd yn uniongyrchol, gan gynnwys cysylltiadau rhwng Ffyrdd Math 1 gwahanol neu bwyntiau gwahanol ar yr un ffordd Math 1.
- Nid oes cyfyngiad ar y hyd, ond mae'n annhebygol y bydd gosodiadau gyda phellteroedd gormodol rhwng cyffyrdd â Math 1 yn caniatáu darpariaeth Drafnidiaeth Gyhoeddus ddigonol.
- Mae mynediad uniongyrchol i gerbydau yn ganiataol, ond mae angen dylunio'n ofalus, yn enwedig ar yr ochr sydd â darpariaeth beiciau.
- Disgwylir i'r terfyn cyflymder fod yn 20 mya neu efallai 30 mya yn dibynnu ar yr un ffactorau â Math 1(c).

#### **Math 3: Stryd Breswyl gyda swyddogaeth mynediad sylweddol**

- Fel arfer, dim ond yn uniongyrchol i Math 2 mae hon yn cysylltu, er mwyn darparu mynediad ar gyfer Mathau 4 a 5.
- Mae'r ffyrdd hyn naill ai'n rhai nad oes ffordd drwyddynt, neu maent yn dolennu'n ôl i'r ffordd ddechreuol.
- Y pellter mwyaf o unrhyw bwynt ar y ffordd hon yw 200m i neu o Fathau 1 a 2.
- Disgwylir i'r cyflymder dylunio a'r cyfyngiad cyflymder fod yn 20 mya.
- Mae'n debygol y bydd y briffordd â mynediad preswyl uniongyrchol ar hyd tramwyfeydd gyda pharcio ar y stryd yn gyfyngedig mewn baeau.

#### **Math 4 : Stryd breswyl gyda sgôp i rannu'r briffordd gyda thraffig, ond hefyd yn ardal glir, bwrpasol o fynediad diogel i ddefnyddwyr stryd sy'n agored i niwed.**

- Mae'r rhain yn cysylltu â Math 3 neu efallai 1 a 2.
- Disgwylir defnyddio arwyddion gofod a rennir.
- Disgwylir i'r rhain gael eu cysylltu â Mathau 2 neu 3, er efallai y bydd cysylltiad oddi ar Math 1 yn bosibl.
- Ni ddisgwylir i gyfanswm y lleoedd parcio a wasanaethir o'r ffordd hon, gan gynnwys strydoedd oddi arni, fod yn fwy na 200 heb drafodaeth ymlaen llaw.
- Gallai'r cynllun fod naill ai'n un nad oes ffordd drwodd, neu un sy'n dolennu'n ôl i'r un ffordd, ond ni ddylai ddarparu llwybr drwodd i ffordd Math 4 neu uwch.

#### **Math 5: Ffurio gofod stryd a rennir neu gwrta rennir**

- Hyd hyd y math hwn o briffordd yw 80 metr ac ni fyddai'n gwasanaethu mwy na 30 o leoedd, gan gynnwys darpariaeth ar y stryd ac oddi ar y stryd. Cedwir yr hawl i gynnwys cyfleoedd parcio clir, boed yn ddynodedig ai peidio, yn y ffigur hwn.

# Safonau Dylunio Technegol Cyngor Caerdydd

## Adran B – Cynllun Ffordd Datblygiad Preswyl

- (b) Disgwylir i'r terfyn cyflymder fod yn 20 mya gyda chyflymder dylunio o 10 mya o bosibl.
- (c) Bydd cyflymder dylunio o 10 mya ar gyfer manau a rennir. Noder na ellir darparu Parthau Cartref yng Nghymru gan fod Llywodraeth Cymru wedi penderfynu peidio â chyhoeddi'r Rheoliadau gofynnol neu awdurdodi'r arwyddion gofynnol.

### **Math 6: Tramwyfeydd a rennir**

- (a) Ni ellir mabwysiadu'r rhain ond disgwylir i'r paramedrau dylunio canlynol fod yn berthnasol.
- (b) Hyd y ffordd yn ddim mwy na 25 metr.
- (c) Nifer y lleoedd parcio a wasanaethir yw 10.
- (d) Dylid darparu gofod troi sy'n addas ar gyfer fan 3.5T "Cyflenwi i'r Cartref" er mwyn diogelwch trigolion.

## Safonau Dylunio Technegol Cyngor Caerdydd

### Adran B – Cynllun Ffordd Datblygiad Preswyl

Math	Swyddogaeth priffordd fabwysiedig, cyfyngiad cyflymder a chyflymder dylunio	Cyfyngiadau Hyd neu Barcio	Gofod pob defnyddiwr sylfaenol <sup>1</sup> m	Uchder y cwrw mm	Gofod beicio wedi'i wahanu <sup>2</sup>	Troedffordd/ llwybr beicio a rennir <sup>2</sup>	Gofod <sup>4</sup> Cerddwyr <sup>3</sup>	Parcio ar y Briffordd
1	Llwybr Trafnidiaeth Gyhoeddus 30 neu 20mya	Dim	6.3	125	3 m un ochr	Amh.	2 m dwy ochr	Mewn baeau cyfochrog
2	Mynediad i a Thrwy Adal Breswyl 20 (30) mya	Dim ond gweler 2(c)	5.5	125	3 m un ochr	Amh.	2 m dwy ochr	Mewn baeau cyfochrog
					Amh.	3 m un ochr	2 m ochr arall	
3	Strydoedd Preswyl gyda swyddogaeth mynediad lleol 20 (30) mya	Mwyafswm 300 m i Fathau 1 neu 2	5.5	125	Amh.	3 m un ochr	2 m ochr arall	Cyfyngedig ar y stryd; 1 ochr yn unig
4	Stryd Breswyl yn Unig 10 mya dylunio a Terfyn 20mya	Gwasanaethu cyfanswm o 200 o leoedd	4.8	50 i 0 <sup>5</sup>	Amh.	Amh.	Parth diogelwch parhaus 2 m ar gyfer defnyddwyr agored i niwed i lawr un ochr a 1.2 m o fynediad diogel di-gar i mewn ac ar draws y stryd o bob cartref	Ar y stryd mewn baeau

# Safonau Dylunio Technegol Cyngor Caerdydd

## Adran B – Cynllun Ffordd Datblygiad Preswyl

5	Stryd ar gyfer defnydd a rennir 10 mya dylunio a Terfyn 20mya	80 metr neu 30 lle	5.6 (gan gynnwys sribed gwasanaeth) <sup>7</sup>	Amh.	Amh.	Amh.	Darperir gan y Stribed Gwasanaeth	Ar y stryd mewn baeau
---	---	--------------------	--	------	------	------	-----------------------------------	-----------------------

<sup>1</sup> Mae hyn heb Lôn Bysus, Lonydd Troi, Parcio neu lle arall ar y ffordd. Lle mae'r radiws yn 300 m neu'n llai ar Lwybrau Trafnidiaeth Gyhoeddus, bydd angen gwirio'r cynllun gan gynnal Profion Llwybr ar gyfer pob cyfuniad o fysus 12 metr a/neu Gerbydau Cymalog Uchafswm Maint mewn cyfeiriadau croes. Y cliriadau gofynnol yw 200 mm o'r teiar i ymyl y ffordd neu o'r corff i droedffordd (neu debyg) a 650 mm o fws i gerbydau sy'n teithio yn y cyfeiriad croes neu 450 mm o gerbydau nwyddau i gerbydau nwyddau yn y cyfeiriad croes.

Dim ond ar gyfleusterau neu nodweddion croesi y caiff yr ochr newid.

<sup>3</sup> Mae'r term cerddwyr yn cwmpasu'r holl ddefnyddwyr a ganiateir ar Lwybr Troed (gan gynnwys coetsys bach, cadeiriau olwyn a sgwteri symudedd, ond heb eu cyfyngu i hynny)

<sup>4</sup> Dyma'r lled clir. Lle ceir dau led, ni allant newid ochr heblaw mewn mannau gyda chyfleoedd croesi da. Nid oes angen i'r lled culach fod yn barhaus.

<sup>5</sup> Dim ond os yw nodweddion eraill yn atal gyrru a pharcio ar y droedffordd (planwyr, waliau neu folardiau) ond yn caniatáu symudiad cerddwyr trwy ddarparu arweiniad digonol trwy ddeunyddiau ar gyfer defnyddwyr â nam ar eu golwg, y caniateir uchder cyrbau sydd yn 50 mm neu lai. Sylwer, bydd angen defnyddio mannau croesi aml ar gyfer cyrbau ag uchder o 50mm ar gyfer defnyddwyr â nam ar eu symudedd oni bai bod cyrbau 'batter' yn cael eu defnyddio.

<sup>6</sup> Bydd angen lle ychwanegol ar gyfer parcio mewn baeau i bob defnyddiwr. Gall priffyrdd Math 4 a 5 fod â cheibr neu fannau parcio cyfochrog, a dylent newid ochrau i gyfyngu ar y gwelededd i yrwyr.

<sup>7</sup> Lled sribed gwasanaeth yw 1.1 m. Rhaid adnabod y sribed hwn yn weledol yn ardal y briffordd, a dylai'r deunydd arwyneb gymryd i ystyriaeth y risg o gloddio ac adfer. Dylid atal neu rwystro parcio ar y sribed gwasanaeth.

# Safonau Dylunio Technegol Cyngor Caerdydd

## Adran B – Cynllun Ffordd Datblygiad Preswyl

### B3. Cymhwysio Safonau Dylunio

- 3.1. Graddiant. Er gwaethaf unrhyw raddiant a roddir yn y safonau hyn neu gyfeiriadau eraill, mae'n rhaid ystyried gofynion y Canllawiau Dylunio i'r Ddeddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 a chyhoeddiad y DfT, Symudedd Cynhwysol. Yn benodol, os yw graddiant y ffordd gerbydau yn fwy na'r hyn a roddir yn y dogfennau hynny, yna rhaid darparu llwybrau amgen, cyfleus a diogel eraill sy'n darparu'r un lefel mynediad gyffredinol â'r rhwydwaith y ffordd gerbydau.
- 3.2. Canllawiau Dylunio Parthau Cartref. Mae'r egwyddorion yn y canllawiau hyn yn ddefnyddiol wrth ystyried rhai datblygiadau llai neu ardaloedd o gynllun y bwriedir iddynt fod yn ddi-draffig yn bennaf. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi nad yw Llywodraeth Cymru wedi rhoi'r rheoliadau angenrheidiol o dan Ddeddf Trafnidiaeth 2000 i alluogi Creu Parthau Cartref yng Nghymru ac felly nid oes unrhyw ddyluniadau arwyddion cymeradwy yn bodoli ac ni ddylid defnyddio'r arwydd Saesneg yn unig. Yn unol â hynny, ni fydd unrhyw ddyluniad yn seiliedig ar y canllawiau hyn yn dderbyniol.
- 3.3. Llawlyfr Strydoedd. Dyma'r briif ddogfen i'w defnyddio ar gyfer dylunio ardaloedd preswyl newydd ac mae'n disodli DB32 a Lleoedd, Stryd a Symudiadau ac yn ategu Datganiad Polisi Cynllunio 3: Polisi Tai a Chynllunio Cymru. Yn gyffredinol, bydd dyluniadau sy'n cydymffurfio â'r canllawiau hyn yn dderbyniol i bob ffordd sydd â datblygiad preswyl. Yr eithriad yw ar gyfer ffyrdd sydd â lefelau isel o ffryntiad a mynediad ac felly maent yn bennaf ar gyfer symud cerbydau, lle dylid defnyddio safonau eraill.
- 3.4. Llawlyfr Strydoedd 2. Mae'r ddogfen hon yn ymestyn egwyddorion MfS a dylid ei defnyddio mewn datblygiadau mwy lle mae'r cyfrolau traffig disgwylidig a chyd-destun y ffordd y tu allan i'r rhai a gymerwyd yn y gwaith o baratoi'r MfS. Pan fo'r datblygiad yn ymuno â'r briffordd bresennol rhaid i'r dylunydd gytuno p'un a ddylid defnyddio'r safonau yn MfA2 neu'r DMRB i ddylunio'r pwynt mynediad ac unrhyw nodweddion sy'n gysylltiedig ag ef. Pan gyflwynir lluniadau Adran 278 ar gyfer RSA a chymeradwyaeth, rhaid nodi'r safonau MfA2 yn glir yn unol â pharagraff 1.4.
- 3.5. Llawlyfr Dylunio Ffyrdd a Phontydd. Dyma safon yr Adran Drafnidiaeth<sup>12</sup> ar gyfer Cefnffyrdd ac mae'n rhoi'r gofynion ar gyfer y ffyrdd hyn. Nid ydynt fel rheol yn berthnasol i rwydwaith Ffyrdd Sirol Caerdydd ond mae'n gweithio ar sawl ffordd dosbarth A, yn enwedig y rhwydwaith Priffyrdd, y dylid eu dylunio i'r safonau hyn. Hefyd, bydd angen ystyried safonau ymddangosiadol y ffordd

---

<sup>12</sup> Hefyd Llywodraeth Cymru a chyrrff Cefnffyrdd cenedlaethol eraill.

# Safonau Dylunio Technegol Cyngor Caerdydd

## Adran B – Cynllun Ffordd Datblygiad Preswyl

bresennol yng nghyffiniau'r gwaith, yn ogystal â'r cyfyngiad cyflymder. O ganlyniad, bydd y Cyngor yn gwneud penderfyniad i wneud safonau DMRB yn ofynnol mewn trafodaeth gyda'r datblygwr. Er gwaethaf y penderfyniad hwn, gall y datblygwr wneud defnydd o'r safon DMRB lle mae'n darparu arweiniad ar elfennau dylunio na ddarperir yn benodol yn y MfS neu MfA2.

- 3.6. Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013. Mae'r Ddeddf Teithio Llesol yn caniatáu i Lywodraeth Cymru gyhoeddi canllawiau statudol ac ar hyn o bryd dyma'r Canllawiau Dylunio (Rhagfyr 2014). Rhaid defnyddio'r canllawiau hyn wrth ddylunio llwybrau teithio llesol yng Nghymru. Yn unol â hynny, rhaid i'r datblygwr ganfod gan y Cyngor p'un a yw unrhyw rai o'r ffyrdd neu'r llwybrau presennol neu rai sy'n gysylltiedig â datblygiad yn cael eu dynodi'n llwybrau Teithio Llesol, neu'n debygol o fod. Os felly, rhaid defnyddio'r canllawiau hyn. Cymeradwyir y canllawiau hefyd i ddatblygwyr i'w defnyddio trwy gydol y cynllun, ond yn enwedig ar unrhyw ffyrdd sydd â statws symudiadau sylweddol yn hytrach na statws lle.
- 3.7. Canllaw Dylunio Beicio Caerdydd. Noda hwn "Rhaid ystyried anghenion beicwyr wrth ddylunio UNRHYW gynllun ar y briffordd, nid dim ond cynlluniau beicio yn unig." Rhaid ystyried y canllaw dylunio hwn wrth ymgymryd â newidiadau i'r briffordd bresennol o dan gytundebau Adran 278, gan gynnwys sicrhau nad yw'r cynllun yn atal cyflwyno gwelliannau beicio cynlluniedig yn ddiweddarach. Dylid hefyd ei ystyried ar bob ffordd sydd â swyddogaeth symudiadau sylweddol.
- 3.8. Llawlyfr Tir y Cyhoedd Caerdydd. Mae'r llawlyfr hwn yn nodi'r arfer gorau ar gyfer gosodiad a defnydd o ddeunyddiau o fewn Tir y Cyhoedd gyda chyfeiriad penodol at bedair Ardal Cymeriad Tir y Cyhoedd. Mae'n darparu canllawiau cryno i gymhwyso'r egwyddorion a'r gofynion a ddarperir gan y llawlyfrau dylunio eraill y cyfeirir atynt uchod. Mae hefyd yn rhoi cyngor penodol ynghylch dewis derbyniol o ddeunyddiau a'u defnydd drwy'r cyfan o Dir y Cyhoedd.
- 3.9. Archwiliad Diogelwch Ffordd. Rhaid i'r holl ffyrdd a adeiladwyd neu a addaswyd o dan gytundebau Adran 38 neu Adran 278 fod yn destun i broses Archwiliad Diogelwch Ffyrdd. Gall y datblygwr naill ai ddewis defnyddio'r safon ar gyfer RSAs a nodir yn y DMRB neu ddefnyddio llawlyfr RSA Caerdydd. Mae RSA Caerdydd yn dilyn egwyddorion safon DMRB ond yn ei addasu i'r sefyllfaoedd a'r estyniadau penodol sy'n berthnasol i weithiau ar Ffyrdd y Sir. Yn gyffredinol, mae'r rhain yn arwain at lacio'r gofynion archwilio, ond mae hefyd yn cyflwyno'r cysyniad o Archwiliad Hanfodol ar y cam

# Safonau Dylunio Technegol Cyngor Caerdydd

## Adran B – Cynllun Ffordd Datblygiad Preswyl

dylunio dichonoldeb i nodi materion arwyddocaol cyn ymgymryd â'r dyluniad cysyniad.

- 3.10. Asesiad Effaith o Gydraddoldeb. Datblygodd y Cyngor broses ar gyfer cynnal yr asesiadau hyn, sy'n ofynnol i gyflawni rhwymedigaethau Deddf Cydraddoldeb 2010, a dylid trafod y rhain gyda swyddogion priodol y Cyngor.
- 3.11. Archwiliad Cyfun. Mae nifer o archwiliadau ac ymgynghoriadau y dylid eu cynnal wrth baratoi, gweithredu a monitro cynllun ar y briffordd fabwysiedig. Datblygodd Cyngor Caerdydd yr Archwiliad Cyfun fel ffordd o sicrhau bod y rhain yn cael eu hystyried a'u dogfennu ac felly mae'n dod â'r holl brosesau hyn at ei gilydd mewn un ddogfen ffurfiol. Argymhellir bod y datblygwr yn ystyried ymgymryd â'r broses hon gan ei bod yn darparu cofnod clir bod y materion hyn wedi cael eu hystyried.
- 3.12. Dadansoddiad Llwybr Ysgubedig. Rhaid cynnal rhediadau trac wrth gyffyrdd, troi pennau, troi gofod a lleoliadau eraill yn ôl yr angen. Bydd y math o gerbydau yn cael ei bennu yn ôl natur y ffordd a'r defnydd nodweddiadol yn ôl y gofyn. Yn ogystal, lle mae'r radiws yn 300 m neu lai ar Lwybrau Trafnidiaeth Gyhoeddus, mae angen rhedeg trac. Bydd y rhain ar gyfer pob cyfuniad o fysiau 12 metr gwrthwynebol a / neu Uchafswm Cerbydau Cymalog. Y cliriadau gofynnol yw teiar 200 mm i'w ymyl neu gorff i droedffordd (neu debyg) a 650 bws i gerbyd gwrthwynebol neu 450 o nwyddau i nwyddau gwrthwynebol..



# Safonau Dylunio Technegol Cyngor Caerdydd

## Adran C – Cynllun Ffyrdd Diwydiannol a Masnachol

### C1. Athroniaeth Ddylunio

- 1.1. Er gwaethaf unrhyw raddiant a roddir yn y safonau hyn neu gyfeiriadau eraill, mae'n rhaid ystyried gofynion y Canllawiau Dylunio i'r Ddeddf Teithio Llesol (Cymru) a chyhoeddiad y DfT, Symudedd Cynhwysol. Yn benodol, os yw graddiant y ffordd gerbydau yn fwy na'r hyn a roddir yn y dogfennau hynny, yna rhaid darparu llwybrau amgen, cyfleus a diogel eraill sy'n darparu'r un lefel mynediad gyffredinol â'r rhwydwaith y ffordd gerbydau.
- 1.2. Rhaid cynllunio ffyrdd ystadau diwydiannol a masnachol yn benodol i ddarparu ar gyfer defnydd gan gerbydau masnachol mawr. Yn hyn o beth, dibynnir yn helaeth ar Ganllaw Cymdeithas Trafnidiaeth Cludo Nwyddau am wybodaeth am hyd cerbyd, lled, uchder, pwysau llawn llwyth, cylchoedd troi a galluoedd symud.
- 1.3. Rhaid hefyd dylunio ffyrdd ystadau diwydiannol a masnachol gan gadw mewn cof lif cerbydau awr frig a cherddwyr. Rhaid lleihau cyflymder y cerbydau hefyd lle bynnag y bo modd i gynhyrchu ffyrdd diogel. Er mwyn lleihau symudiadau bacio cerbydau nwyddau trwm, mae'n well cael cylchoedd troi yn hytrach na lleoedd i facio'r cerbyd.
- 1.4. Mewn datblygiadau bach lle na ddisgwylir cael cyflenwadau rheolaidd gan gerbydau dros 7.5 tunnell fetrig, efallai y bydd rhywfaint o lacio yn y safonau dylunio yn dderbyniol. Fodd bynnag, mae'n rhaid i'r dyluniad barhau i ganiatáu i gerbydau anhyblyg a chymalog o fwyafswm maint fedru cael mynediad i'r safle a'i adael heb orfod bacio i'r briffordd.
- 1.5. Rhaid i ffyrdd ystadau ddiwydiannol a masnachol hefyd gynnwys darpariaeth ar gyfer cerddwyr a beicwyr yn unol â gofynion y Cyngor a Llywodraeth Cymru ar gyfer Teithio Llesol.
- 1.6. Rhaid i ddatblygiadau Diwydiannol a Masnachol ddarparu'r lefel barcio ofynnol ac, os oes angen, dylid darparu cyfyngiadau lle gallai parcio gorlif gael effaith ar fynediad a diogelwch.
- 1.7. Rhaid i ddyluniadau hefyd fod yn destun i Archwiliadau Diogelwch Ffyrdd a Dadansoddiad Effaith ar Gydraddoldeb fel y nodir yn Adrannau A a B.

### C2. Hierarchaeth a Safonau Ffyrdd

- 2.1. Mae'r hierarchaeth ffyrdd yn disgyn i ddau gategori sef Ffyrdd Dynesu a Ffyrdd Mynediad a dylai'r cynllun gael ei ddylunio i'r safonau yn Nhabl 1.

	Ffordd Ddynesu	Ffordd Fynediad
Cyflymder dylunio (mya)	30	25
Lleiafswm Lled Cerbyffordd (m) (gweler 2.3)	7.3	6.5
Lleiafswm Radiws Llinell Ganol (m)	70	50
Mwyafswm Graddiant (%)	8	8

# Safonau Dylunio Technegol Cyngor Caerdydd

## Adran C – Cynllun Ffyrdd Diwydiannol a Masnachol

Mwyafswm Bwlch Cyffordd Gyfagos (m)	60	30
Lleiafswm Blwch Cyffordd Gyferbyn (m)	30	25
Lleiafswm Radiws y Cwrab ar y Gyffordd (m)	15	15
Lleiafswm Pellter 'X' ar y Gyffordd (m)	2.4	2.4
Lleiafswm Pellter Gweld Stopio Ymlaen (m)	40	40

Tabl 1 – Safonau Gosodiad

- 2.2. Lled Cerbydau ar Droadau - Rhaid gwneud y lwfans ar droadau tynn i gynyddu lled y llwybrau a ddefnyddir gan gerbydau wrth droi. Felly bydd lled y ffordd yn dibynnu ar radiws y troad a hyd y cerbyd.
  - a) Trwy y cyfan o ddatblygiadau masnachol a diwydiannol, bydd angen llwybrau ehangelch i sicrhau bod lled y ffordd ac ehangu ar y troadau yn ddigonol i ganiatáu i gerbydau nwyddau trwm fynd heibio. Yr ymyl diogelwch fydd;
  - b) Lled y ffordd gerbydau yn 7.3m, 1.1m rhwng cyfeiriadau gwrthgyferbyniol a 0.5m oddi wrth y cwrab
  - c) Lled y ffordd gerbydau yn 6.5m, 0.7m rhwng cyfeiriadau gwrthgyferbyniol a 0.3m oddi wrth y cwrab
  - d) Rhaid cadw'r ymylon diogelwch bob amser.
- 2.3. Ardaloedd Troi. Rhaid darparu man troi ar ben pob ffordd pengaead ac mewn mannau eraill lle y byddai disgwyl i gerbydau mawr facio mwy na phellter byr fel arall.
  - a) Mae'n rhaid i ardaloedd troi fod allu cynnwys cerbydau mawr yn troi.
  - b) Rhaid eu gosod yn unol â'r manylion safonol. Ffefrir cylchoedd troi.
- C3. Giatiau Mynediad
  - 3.1. Rhaid i'r holl giatiau sy'n arwain at unedau diwydiannol cyffiniol agor i ffwrdd o gefn y briffordd gyfagos yn unig, a lle bo modd, dylid eu gosod yn ôl 12 metr.
  - 3.2. Rhaid gosod giatiau diogelwch o rwystrau sydd ar gau yn bennaf ac sydd angen eu hagor ar gyfer pob cerbyd 20 metr o ymyl y briffordd gyfagos, lle bo hynny'n bosib. Lle mae maint y cerbydau sy'n mynd i mewn i'r safle fel arfer yn llai na 10 metr o hyd, gellir lleihau'r ardal a osodir yn ôl i 12 metr, gyda chytundeb y Swyddogion priodol.
- C4. Cyffyrdd Mynediad
  - 4.1. Rhaid dylunio cyffyrdd â'r rhwydwaith ffyrdd presennol yn unol â'r safonau sy'n berthnasol i'r ffordd bresennol. Rhaid i'r dyluniad fod yn seiliedig ar ddata arolwg gwirioneddol, gan wneud lwfans ar gyfer twf traffig fel bo'r angen. Dylai datblygwyr gysylltu â'r Cyngor am gyngor ar hyn.

## Safonau Dylunio Technegol Cyngor Caerdydd Adran C – Cynllun Ffyrdd Diwydiannol a Masnachol

- 4.2. Ar y lleiaf, bydd angen Archwiliad Diogelwch Ffordd Hanfodol<sup>13</sup> fel rhan o'r cyflwyniad cynllunio ar gyfer y cyffyrdd mynediad. Argymhellir bod y cynllun cyfan yn cael ei archwilio yn yr un modd i leihau'r risg o gael caniatâd cynllunio ar gyfer cynllun gyda materion diogelwch na ellir eu datrys yn hawdd heb ganiatâd diwygiedig.

### C5. Rhagor o Ganllawiau

- 5.1. Dylid ymgynghori â chanllawiau'r Cyngor yn Adran B - Ffyrdd Datblygiad Preswyl, am ragor o wybodaeth a chynghor ar y gofynion ar gyfer datblygiadau a chymeradwyo elfennau dylunio.

---

<sup>13</sup> Yn unol â Llawlyfr Archwiliad Diogelwch Ffyrdd Cyngor Caerdydd

# Safonau Dylunio Technegol Cyngor Caerdydd

## Adran D – Cyngor ar Elfennau Dylunio

### D1. Cyfleusterau Cerddwyr a Beicio.

- 1.1. Cyfeirier at Adran E Atodiadau B i E am fanylion ynglŷn â lleoli cyfleusterau cerddwyr heb eu rheoli, cyfleusterau beiciau a defnydd palmant botymog.

### D2. Cynllun

- 2.1. Graddiant. Er gwaethaf unrhyw raddiant a roddir yn y safonau hyn neu gyfeiriadau eraill, mae'n rhaid ystyried gofynion y Canllawiau Dylunio i'r Ddeddf Teithio Llesol (Cymru) a chyhoeddiad y DfT, Symudedd Cynhwysol. Yn benodol, os yw graddiant y ffordd gerbydau yn fwy na'r hyn a roddir yn y dogfennau hynny, yna rhaid darparu llwybrau amgen, cyfleus a diogel eraill sy'n darparu'r un lefel mynediad gyffredinol â'r rhwydwaith y ffordd gerbydau.
- 2.2. Pwyntiau Mynediad Bach. Ni ddylid rhagdybio bod angen gosod cyffordd bob amser pan fydd pwynt mynediad o ffordd yn gwasanaethu sawl eiddo. Mewn llawer o achosion mewn ardaloedd trefol lle mae'r nifer sy'n defnyddio'r fynedfa sawl gwaith mwy na'r llif cerbydau, yna mae trefniant croesgam yn well gan nad yw'n amharu ar lif y cerddwyr ac mae'n atgyfnerthu hierarchaeth defnyddwyr y ffordd. Mewn ardaloedd canolog, mae hefyd yn lleihau'r perygl y bydd y fynedfa yn cael ei chamgymryd am briffordd gyhoeddus a'i bod yn cael ei defnyddio ar gyfer parcio cyffredinol a hynny ar draul trigolion. Fodd bynnag, nid yw'r egwyddor hon yn addas ar gyfer ffyrdd â chyfyngiad cyflymder uwch na 30 mya.
- 2.3. Ynysoedd Croesgam i Gerddwyr. Dylai dyluniad y cyfleusterau hyn ddefnyddio'r cynllun cwrw 'rhwystr', a elwir yn ddyluniad Kensington High Street, oni bai y nodwyd rheswm diogelwch neu er mwyn cynnal parhad dylunio gyda chyfleusterau presennol cyfagos. Dylai'r ynysoedd hyn fod ar gynllun 'chwith/ dde' fel bod cerddwyr sy'n croesi'r cyrbau rhwystr y tu draw i linell stopio cerbyd. Rhaid peidio â defnyddio palmant ataliol yn nyluniad cwrw rhwystr. Gweler Adran E para 8.
- 2.4. Palmant botymog. Tynnir sylw at y canllawiau ar y defnydd o Wynebau Palmant Botymog<sup>14</sup> a Symudedd Cynhwysol<sup>15</sup> o ran lleoliad, lliw a dimensiynau. Nid oes angen i groesfannau cyrbau is fod ar y llinell awydd, ond rhaid eu cadw yn agos ati. Yn unol â hynny, dylai cynlluniau sicrhau cydbwysedd rhwng: cerddwyr sy'n ei defnyddio â gwelededd i ac o draffig sy'n troi; lleihau'r pellter

<sup>14</sup> DETR Adran Drafndiaeth a Rhanbarthau Amgylchedd (bellach DfT) (now DfT) 1988

<sup>15</sup> Adran Drafndiaeth 2005

# Safonau Dylunio Technegol Cyngor Caerdydd

## Adran D – Cyngor ar Elfennau Dylunio

croesi a lleihau'r posibilrwydd y gallai defnyddwyr â nam ar eu golwg fod yn ansicr ynghylch cyfeiriad y groesfan. Gall y mater olaf ddigwydd pan osodir palmant botymog ar radiws ceg y gloch, fel bod y cynllun yn amwys ac o bosib yn gamarweiniol neu hyd yn oed yn beryglus. Gweler Atodiad C.

- 2.5. Troedffyrdd a Llwybrau. Rhaid dylunio troedffyrdd newydd i fod â lled clir o 2.0 metr oni bai bod y Cyngor yn cytuno fel arall. Rhaid i'r lled clir hwn ystyried yr holl rwystrau a ddisgwylir fel goleuadau stryd, rheiliau diogelwch cerddwyr a chypyrddau offer megis pileri bwydo a rheolwyr signal traffig. Rhaid i bob llwybr arall gwrdd â gofynion y canllawiau dylunio a gyhoeddwyd dan Ddeddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 neu Ganllawiau Dylunio Beicio Caerdydd, fel y bo'n briodol. Rhaid i hyn gynnwys unrhyw lled ychwanegol sy'n gysylltiedig â llwybr sy'n gyfagos i ffordd neu ffens a fyddai'n cyfyngu ar y lled effeithiol sydd ar gael.
- 2.6. Cyffyrdd rhwng Llwybrau neu Draciau. Lle mae llwybr yn ymuno â llwybr arall, h.y. llwybr cerdded sy'n mynd i mewn i droedffordd a'u bod wedi'u ffinio ag ardaloedd wedi'u tirlunio, yna rhaid cael ffiled o 1 m wrth 1 m o leiaf i atal yr ardal rhag cael ei threulio gan gerddwyr yn croesi'r gornel. Os yw Llwybr Beicio yn rhan o hyn, yna rhaid ystyried cynyddu'r dimensiynau i 2 fetr wrth 2 fetr.
- 2.7. Cyffyrdd Llwybrau gyda Ffyrdd Gerbydau. Mae angen ystyried yn ofalus ddyluniad y pwyntiau lle mae troedffyrdd neu drosffyrdd a rennir/ llwybrau beicio/ llwybrau a rennir yn cwrdd â cherbyffyrdd. Dylai'r dyluniad osgoi'r perygl i gerddwyr neu feicwyr fethu â chanfod eu bod yn cyrraedd cyffordd â ffordd gerbydau, ac o ganlyniad mynd i mewn i'r ffordd yn anfwriadol. Gellir cyflawni hyn trwy wyriad llorweddol addas ar y ffordd ddynesu ac ni ddylid ei gyflawni fel arfer trwy ddefnyddio rhwystrau. Fodd bynnag, lle nad yw hyn yn bosib oherwydd cyfyngiadau tir neu faterion tebyg, rhaid dilyn y canllawiau ar ddefnyddio Rheiliau Diogelwch Cerddwyr.
- 2.8. Cyrbau Is ar Groesfannau Cerddwyr. Dylai'r cyrbau is fod yn gywastad â'r ffordd gerbydau neu floc sianel ond ni ddylai fod yn fwy na 6 mm mewn unrhyw achos. Rhaid i bob cwrb is o'r fath fod â phalmant botymog yn y cynllun priodol ar gyfer lleoliad y cyrbau is. Mae angen dilyn y canllawiau hyn hefyd ar gyfer y manau croesi i gerddwyr o fewn bwrdd croesi neu fwrdd cyffordd.
- 2.9. Cyrbau Is mewn Lonydd Gwrthlif Gerbydau. Dylai'r cyrbau is fod yn lleiafswm absoliwt o 25 mm uwchlaw'r ffordd gerbydau neu sianel, ac yn ddelfrydol 35 mm yn uwch na hynny. Ni ddylid gosod

# Safonau Dylunio Technegol Cyngor Caerdydd

## Adran D – Cyngor ar Elfennau Dylunio

palmant botymog pothellog ar naill ochr a'r llall o'r gwrthlif fel petai'n gyffordd.

- 2.10. Cyrbau Is ar Fynediad i Droedffordd/Ffordd Beicio a Rennir. Lle mae beicwyr yn croesi cyrbau ar ongl fas i fynd i mewn i lwybr beicio a rennir, gall defnyddio cyrbau is sy'n uwch na 6 mm arwain at berygl y bydd y beicwyr yn colli rheolaeth, ond mae hyn yn golygu y bydd defnyddwyr â nam ar eu golwg mewn perygl. Yn yr achos hwn, efallai y bydd y defnydd o balmant rhybudd perygl ffordd resog ar hyd y llinell ymyl yn briodol, a dylid ei drafod gyda swyddogion y Cyngor. Lle mae llwybr beicio wedi'i wahanu ger y ffordd gerbydau, ni ddylai'r broblem hon ddigwydd os yw'r palmant botymog penodedig wedi'i ddefnyddio'n gywir.
- 2.11. Uchder y Cwrab ar Fyrddau Cyflymder a Chyffordd. Dylid darparu uchder lleiafswm absoliwt o 25 mm ac yn ddelfrydol 35 mm. Rhaid darparu cyrbau pontio 200 mm o hyd ar bob ochr i'r manau croesfan i gerddwyr. Lle bo angen palmant rhybudd peryglon ffordd resog, gellir ei ddarparu yn lle'r rheiliau diogelwch cerddwyr a ddangosir ar Ffigur 17 sef "Canllawiau ar ddefnyddio Arwynebau Palmant Botymog". Yn yr achosion hyn, dylai'r alinio fod mor syth ag sy'n ymarferol rhwng pwyntiau croesi.
- 2.12. Rheiliau Diogelwch Cerddwyr. Ni ddylid defnyddio rheiliau diogelwch cerddwyr oni bai bod materion diogelwch penodol y mae angen ymdrin â hwy. Gall eu defnyddio dros dro arwain at i gerddwyr gael eu dal yn y ffordd gerbydau a chynyddu'r perygl i feicwyr gan y gallant gael eu gwasgu rhyngddynt a cherbyd modur crwydrol. Lle mae pryderon, megis pan fydd llwybr yn cwrdd â phriffordd, yna dylid newid y dyluniad lle bo modd i gael gwared ar eu defnydd neu ei leihau. Mae angen gosod rheiliau diogelwch ar isafswm o 450 mm o wyneb y cwrab a rhaid i led y droedffordd neu'r llwybr arall gael ei gynyddu o leiaf<sup>16</sup> 500 mm i wneud lwfans ar gyfer colli lled oherwydd y rhwystr. Pan gaiff ei roi i atal defnyddwyr y llwybr rhag crwydro i mewn i'r ffordd gerbyd yn anfwriadol, dylid ei roi ar ymyl blaen y droedffordd ac nid fel trefniant croesgam o fewn y llwybr. Yn unol â hynny, bydd angen gwrthbwysu unrhyw groesfan cwrab is sy'n gysylltiedig â'r llwybr o linell y llwybr. Lle maent yn cael eu defnyddio, rhaid dilyn y gofynion yn yr adran ar Ddodrefn Stryd.

---

<sup>16</sup> Ar gyfer llwybrau gyda defnydd beiciau, mae'r gofynion ar gyfer lled ychwanegol yn y canllaw a gyhoeddir o dan Ddeddf Teithio Llesol (Cymru) 2013.

## Safonau Dylunio Technegol Cyngor Caerdydd Adran D – Cyngor ar Elfennau Dylunio

- 2.13. Palmant Ataliol Cerddwyr. Dangosodd profiad mai anaml iawn y mae hyn yn effeithiol ac felly mae'n dod yn berygl ychwanegol i gerddwyr, yn hytrach nag ymdrin â'r mater canfyddedig o ddefnydd y nodwedd lle mae wedi'i gosod. O ganlyniad, ni ddylid ei defnyddio heblaw mewn achosion cyfyngedig fel y nodir isod. Pan ystyrir ei fod yn gweithredu fel dewis arall i reiliau diogelwch, fel mewn llain ganol i atal symudiadau croesi, ni ddylid defnyddio rheiliau diogelwch chwaith gan fod hyn hefyd yn creu peryglon. Yr ateb mwyaf priodol fyddai gwneud cyfleusterau croesi addas, serch eu bod o safon sylfaenol, yn y safleoedd angenrheidiol. Dim ond os bydd cerddwyr yn gorfod cerdded pellter sylweddol arno, fel 10 metr neu ragor, a lle mae'r rheswm yw nad yw'r droedffordd, neu stribed ymylol, yn barhaus neu ei bod yn rhy gul iddi fod yn ddiogel i'w defnyddio, y bydd Palmant Ataliol Cerddwyr yn effeithiol. Yn yr achosion hyn, rhaid cael llwybr arall trwy gyfleusterau croesi priodol. Fel arall, gellid ei ddefnyddio i osod palmant ar ardal lle mae awydd i leihau cerddwyr neu feicwyr rhag ymgasglu, ond mae hyn yn annhebygol o fod yn nodwedd o'r briffordd a fabwysiadwyd.
- 2.14. Gorchymynion Rheoleiddio Traffig (TROs). Dylid dylunio cynlluniau i leihau'r angen am TROs a dylid trafod unrhyw ofyniad cyn gynted â phosib gyda'n tîm TRO. Pan fo cynllun yn cynnwys TRO, dylai'r dylunydd nodi fod yr amser sydd ei angen i brosesu'r Gorchymyn angenrheidiol hyd at naw mis. O ganlyniad, lle mae perygl y gallai'r cynllun fod yn agored i'r cyhoedd cyn i'r TRO gael ei selio, rhaid i'r dyluniad ganiatáu ar gyfer y sefyllfa rhyng-gyflwr a'r cynllun a gwblhawyd.
- 2.15. Signalau traffig. Mae angen trafod cynlluniau sy'n cynnwys signalau traffig p'un ai fel rheoli cyffordd neu gyfleusterau croesi â Tîm Trydanol y Cyngor cyn gynted â phosibl. Rhaid i'r holl dyluniadau rheoli signal gael eu cymeradwyo gan y Tîm Trydanol a gallant ddarparu canllawiau a gwasanaethau dylunio.
- 2.16. Llinellau Stopio Ymlaen i Feicwyr. Rhaid darparu'r rhain ym mhob cynllun a reolir gan signalau, hyd yn oed os oes darpariaeth beiciau oddi ar y ffordd gerbyd gerllaw. Dylid darparu llinellau arwain i mewn oni bai y gellir dangos bod cyfyngiadau yn gwneud hyn yn anymarferol. Lle ceir darpariaeth feicio gerllaw y lôn gerbydau, rhaid darparu Man Casglu Beiciau ychydig cyn y llinell stop arall bellaf fel y gall beicwyr drosglwyddo rhwng y ddau leoliad. Gall hyn helpu beicwyr i adael y brif ffordd i ddefnyddio croesfan twcan heb orfod defnyddio'r cerbiau wedi'u gostwng neu groesi'r llinell stop tra bo'r signalau ar goch i draffig.

# Safonau Dylunio Technegol Cyngor Caerdydd

## Adran D – Cyngor ar Elfennau Dylunio

2.17. Gostegu traffig. Bydd angen i gynlluniau sy'n ymwneud â gweithredu newid unrhyw dwmpath ffordd, neu wyriadau fertigol eraill, fod yn destun ymgynghoriad statudol. Yn gyffredinol, dim ond unrhyw wyriadau fertigol newydd fydd yn dderbyniol ar ffurf byrddau cyflymder, yn hytrach na thwmpathau ffordd neu glustogau cyflymder. Bydd angen i uchder a hyd y llwyfan ar unrhyw fwrdd cyflymder a'r gradient fodloni'r gofynion perthnasol yn Adran E - Safonau Adeiladu paragraffau 1.7 a 18.

### D3. Celfi Stryd

- 3.1. Rheiliau Diogelwch Cerddwyr. Lle mae angen Rheiliau Diogelwch Cerddwyr yna rhaid cytuno ar yr arddull i'w defnyddio gyda'r Cyngor a dylai'r arddull adlewyrchu elfennau eraill y celfi stryd a bennir yn y CPRM. Rhaid i'r holl reiliau fod yn unedau "cyn-stoc" safonol wedi'u gosod gyda gwaelodion soced er mwyn eu galluogi i gael eu symud neu eu hailosod yn hawdd.
- 3.2. Bolardiau. Bydd rhaid i'r math o folard ystyried gofynion y CPRM. Yn ogystal, oni chytunir bod y bolardiau mewn lleoliad sy'n peri bod y risg o wrthdrawiad cerbyd yn isel iawn, rhaid iddynt gael eu socedu neu fod o fath sy'n gallu unioni eu hunain, neu yn ddelfrydol, y ddau. Rhaid cytuno ar yr union fanyleb i ostwng y rhestr eiddo gwaith stryd sy'n ofynnol.
- 3.3. Rhwystrau Gwrth-Beiciau Modur. Gall y rhwystrau hyn atal mynediad cyfreithlon i bobl anabl, yn ogystal â defnyddwyr â choetsys bach a phramiau, a gall eu defnydd fynd yn groes i'r Ddeddf Cydraddoldeb. Dim ond lle gellir dangos bod problem gyda defnydd gwrthgymdeithasol o feiciau modur neu feiciau na ellir ymdrin â hwy trwy ddyluniad gwell y dylid ystyried eu defnyddio.
- 3.4. Goleuadau Stryd. Mae angen i ddyluniadau goleuadau stryd gael eu cymeradwyo gan Dîm Trydanol y Cyngor a gellir darparu canllawiau a gwasanaethau dylunio ganddynt. Lle maent ar droedffordd, dylent gyd-fynd bob amser ag ymyl gefn y droedffordd oni bai fod amgylchiadau arbennig sy'n gofyn am leoliad gwahanol.
- 3.5. Draenio Priffyrdd. Mae angen i ddyluniadau draenio priffyrdd gael eu cymeradwyo gan dîm draenio priffyrdd y Cyngor a gallant ddarparu canllawiau dylunio.
- 3.6. Arwyddion Ffyrdd. Mae angen i gynlluniau arwyddion ffyrdd gael eu cymeradwyo gan Swyddogion Arwyddion Ffyrdd y Cyngor, a gallant ddarparu canllawiau a gwasanaethau dylunio. Fodd bynnag, dylai unrhyw ddyluniad anelu at leihau nifer yr arwyddion a rhaid ei gynnwys yn yr RSA ar gyfer y cynllun.



# Safonau Dylunio Technegol Cyngor Caerdydd

## Adran D – Cyngor ar Elfennau Dylunio

- 3.7. Caeadau tyllau archwilio Pob caead twll archwilio a chaeadau tebyg eraill yn y briffordd.
- a) Rhaid bod gan gaeadau ger manau brecio neu droi<sup>17</sup> arwyneb ymwrthedd sgidio uchel. Yn ddelfrydol, dylai'r caeadau hyn fod wedi'u gwneud o ddeunydd cyfansawdd i leihau'r risg o ddwyn metel.
  - b) Rhaid lleoli caeadau yng nghanol lonydd ac yn glir o draciau olwyn ar gyfer symudiadau troi bysus, cerbydau nwyddau trwm a beiciau modur.
  - c) Rhaid lleoli caeadau o leiaf 5 metr o ben a gwaelod rampiau Byrddau Arafu a Thwmpathau Ffordd.
  - d) Rhaid i'r ffrâm fod o leiaf 150 o ddyfnder fel y gellir gosod arwynebau'n iawn iddo heb unrhyw fewnlenwi, neu mewn manau wedi'u tirlino fel y gellir darparu border concrit o isafswm lled o 15X0 mm. Gweler Adran E – Safonau Adeiladu: Atodiad F: Manylion Adeiladu Amrywiol: Eitem 2
  - e) Bydd angen i unrhyw gaead newydd gael ei gymeradwyo gan Dîm Priffyrdd y Cyngor a, lle bo'n briodol, y cwmni Cyfleustodau.

### D4. Tirlunio

- 4.1. Rhaid i'r holl waith tirlunio fod yn unol â'r amodau cynllunio a rhaid ei offen cyn cwblhau'r dyluniad Goleuadau Stryd.
- 4.2. Gellir gosod celloedd gwraidd sy'n gysylltiedig â choeden ar briffordd yn rhannol islaw lle a rennir neu ffordd/droedffordd y gellir ei mabwysiadu ar yr amodau canlynol:
  - a) Nodir y math cywir o gell i ddal llwyth traffig.
  - b) Mae cliriad 650mm o lefel y ffordd orffenedig i lefel uchaf y celloedd yn cael ei gynnal.
  - c) Ni ddylai celloedd gwraidd sy'n gysylltiedig â choed ar briffyrdd cyhoeddus y gellir eu mabwysiadu fod y tu allan i derfynau'r briffordd gyhoeddus (h.y. nid i erddi a thir blaen preifat ac ati).

### D5. Safonau Adeiladu

---

<sup>17</sup> Bydd lleiafswm yr ardaloedd brecio/arafu a throï yn cyd-fynd â'r diffiniad o Ardal Gritigol yn Llawlyfr Archwiliad Diogelwch Ffyrdd Cyngor Caerdydd

## Safonau Dylunio Technegol Cyngor Caerdydd Adran D – Cyngor ar Elfennau Dylunio

- 5.1. Mae Safonau Cyngor Caerdydd wedi'u diddymu ac yn eu lle mae Safonau Fframwaith Priffyrdd De-ddwyrain Cymru.  
<https://sewh.co.uk/>.
- 5.2. Gellir cyhoeddi manylion sy'n benodol i'r cynllun yn ychwanegol at yr uchod.
- 5.3. Lle bo angen, efallai bydd rhaid i ddylunwyr gyfeirio at y manylion safonol yn y Llawlyfr ar gyfer Adeiladu Gwaith Priffyrdd Cyfrol 3: Manylion Adeiladu Priffyrdd<sup>18</sup>, ond dylid cytuno ar unrhyw ddefnydd o'r manylion hyn gyda Swyddogion.

---

<sup>18</sup> <http://www.standardsforhighways.co.uk/mchw/vol3/index.htm>

# Safonau Dylunio Technegol Cyngor Caerdydd

## Adran E – Safonau Adeiladu

### Cyflwyniad

#### E1. Safonau Priffyrdd Caerdydd

1.1. Mae'r safonau hyn wedi'u disodli gan y rhai yn y SEWF.

#### E2. Llawlyfr Adeiladu Gwaith Priffyrdd

2.1. Lle bo angen, gall dylunwyr gyfeirio at y manylion safonol yn y Llawlyfr Adeiladu Gwaith Priffyrdd Cyfrol 3: Manylion Adeiladu Priffyrdd.

2.2. Dylid cytuno ar unrhyw ddefnydd o'r manylion hyn gyda Swyddogion, yn enwedig mewn perthynas ag unrhyw opisynau ar led, dyfnder neu fanyleb deunyddiau adeiladu.

#### E3. Manylebau a Safonau Cynhyrchwyr

3.1. Lle mae'r gweithgynhyrchydd wedi darparu manylebau neu ganllawiau ar gyfer gosod cynnyrch sy'n amrywio o SEWF, yna bydd y gofynion mwy yn berthnasol.

3.2. Bydd angen cyfeirio unrhyw ansicrwydd ynghylch y safonau y dylid eu cymhwyso at Swyddogion y Cyngor am eu penderfyniad.

**Safonau Dylunio Technegol Cyngor Caerdydd**  
**Adran E – Safonau Adeiladu**  
**Atodiad A : Gofynion Craidd Safonau Priffyrdd**

1. Prif Ddimensiynau: I'w darllen ar y cyd ag adrannau B2 a C2:-
  - 1.1 Lleiafswm troedffordd glir a lled troedffordd glir: 2.0 m gyda goleddf croes o 1 mewn 40 neu 1 mewn 50.
    - a Enghreifftiau o ofynion lled ychwanegol (oni nodir fel arall, mae'r lled ychwanegol i fod â thapr lleiafswm o 1 mewn 2 neu 1 mewn 4 pan ar lwybr beicio neu droedffordd/llwybr beicio)
    - b Ardaloedd aros croesfan dan reolaeth: -
      - i Troedffyrdd 0.4 m ychwanegol (0.5 m os yw'n gyfagos i lwybr beicio tua chefn y groesfan)
      - ii Troedffordd/beicio a rennir 1.0 m ychwanegol mewn croesfannau cyfochrog a thwcan, 0.6 m mewn croedfannau eraill.
    - c Arosfannau bws gyda bwrdd bws:-
      - i Rhaid adeiladu'r bwrdd bws gyda Chwrb Kassel 180mm o uchder.
      - ii Yr hyd a ffefrir ar gyfer y terfyn bws yw 10 metr gan gynnwys darnau cyfnewid 1 metr o hyd ym mhob pen.
      - iii Os oes lle cyfyngedig, yn amodol ar gytundeb, hyd lai o 5 metr gan gynnwys darnau cyfnewid.
      - iv Os oes amgylchiadau eithriadol lle nad oes darpariaeth lloches, gellir ystyried hyd byrrach o gyrbau uchder llawn, yn ddarostyngedig i gytundeb.
    - d Gosod cysgodfan fws amgaeëdig yng nghefn y droedffordd:-
      - i Isafswm lled y droedffordd a ffefrir yw 3.3 metr, sy'n galluogi cysgodfan 1.5 m a throedffordd 1.8 m. Fodd bynnag, os oes wal, ffens neu berth, bydd angen cliriad ychwanegol o 0.5 metr y tu ôl i'r gysgodfan, gan roi cyfanswm o 3.8 metr.
      - ii Fel arfer, bydd lled y droedffordd yn cael ei chynnal ond ar gyfer troedffyrdd mewn ardaloedd lle nad oes llawer o ddefnyddwyr, gellir ystyried isafswm absoliwt o 1.2 metr, yn amodol ar gymeradwyaeth.
      - iii Rhaid i'r lledu ymestyn am hyd llawn y Cyrbau Kassel, ond dim llai na 7 metr.
      - iv Dylai'r meinhad ym mhob pen y troedffyrdd fod o leiaf 1 o bob 5 a bydd unrhyw ostyngiad yn amodol ar gytundeb.
    - e Nid argymhellir gosod cysgodfan fws amgaeëdig yng nghefn troedffordd a llwybr beicio a rennir a dylid ei lleoli yn y blaen, gyda'r droedffordd/llwybr beicio yn y cefn.
    - f Gosod cysgodfan fws amgaeëdig o flaen y droedffordd:-
      - i Y lled gofynnol ar gyfer y gysgodfan yw 0.75 m o'r lôn gerbydau ac 1.5 metr ar gyfer y gysgodfan, sef lled wedi'i gynyddu o 4.25 m.
      - ii Mewn ardaloedd lle nad oes llawer o ddefnyddwyr, yn amodol ar gymeradwyaeth, gellir ystyried isafswm lled troedffordd absoliwt o 1.2 metr, gan leihau'r lled cyffredinol i 3.5 metr. Fodd bynnag, rhaid

# Safonau Dylunio Technegol Cyngor Caerdydd

## Adran E – Safonau Adeiladu

### Atodiad A : Gofynion Craidd Safonau Priffyrdd

caniatáu lled ychwanegol o 0.25 m os oes wal neu berth yng nghefn y droedffordd.

- iii Rhaid i'r lledu ymestyn ar hyd uchder llawn y terfyn bws.
  - iv Dylai'r meinhad ym mhob pen fod o leiaf 1 o bob 5 ar gyfer troedffordd. Bydd unrhyw ostyngiad yn amodol ar gytundeb ond ni ellir caniatáu newid sylweddol mewn lled.
- g Gosod cysgodfan fws o flaen troedffordd/llwybr beicio a rennir:-
- i Y lled gofynnol ar gyfer y gysgodfan yw 0.75 m o'r lôn gerbydau ac 1.5 metr ar gyfer y gysgodfan. Yn seiliedig ar droedffordd/llwybr beicio 3.5 m, byddai'r lled wedi'i ehangu yn mesur 5.75 m.
  - ii Rhaid cynnal lled y droedffordd/llwybr beicio y naill ochr a'r llall i'r gysgodfan gan gynnwys unrhyw led ychwanegol sy'n ofynnol os oes wal neu berth yng nghefn y droedffordd.
  - iii Rhaid i'r lledu ymestyn ar hyd uchder llawn y terfyn bws.
  - iv Dylai'r meinhad ym mhob pen fod o leiaf 1 o bob 10. Bydd unrhyw ostyngiad yn amodol ar gytundeb ond ni ellir caniatáu newid sylweddol mewn lled.
- h Gosod cysgodfan fws gantlifrogr:-
- i Y lled gofynnol ar gyfer y gysgodfan yw 0.75 m o'r lôn gerbydau a 0.85 metr ar gyfer y gysgodfan (0.1 panel blaen + 0.75 ar gyfer panel hanner pen a sedd) sy'n rhoi isafswm lled ychwanegol o 1.6 metr ar gyfer y droedffordd neu'r droedffordd/llwybr beicio. Mae hynny ar gyfer troedffordd 2 m; byddai'n 3.6 metr o led wrth y terfyn bws.
  - ii Fel arfer, bydd lled y droedffordd yn cael ei chynnal ond ar gyfer troedffyrdd mewn ardaloedd lle nad oes llawer o ddefnyddwyr, gellir ystyried isafswm absoliwt o 1.2 metr, yn amodol ar gymeradwyaeth. Ni chaniateir culhau troedffordd/llwybr beicio.
  - iii Rhaid i'r lledu ymestyn ar hyd uchder llawn y terfyn bws.
  - iv Dylai'r meinhad ym mhob pen fod o leiaf 1 o bob 5 (neu 1 o bob 10 yn achos troedffordd/llwybr beicio) a bydd unrhyw ostyngiad yn amodol ar gytundeb, ond ni ellir caniatáu newid sylweddol mewn lled.
- i Ardal biniau graean:- Ardal ychwanegol 2.0 m x 2.0 m. Gellir hepgor y tapr os yw wedi'i leoli yng nghefn y droedffordd neu droedffordd/llwybr beicio
- j Ardal Colofn Goleuadau:- Pan fo hwn yng nghefn y droedffordd, bydd angen ardal palmant ychwanegol o 1.0 m x 1.0 m gyda dim tapr
- 1.2 Troedffordd/Llwybr beicio a rennir a Llwybr beicio wedi'i wahanu:  
Mae'r lled gofynnol yn amrywio yn ôl defnydd a statws y llwybr beicio a'r ffordd gerbydau gerllaw. Mae angen lwfans hefyd ar gyfer ymyl a hefyd gofod ychwanegol lle mae'r nodweddion fertigol yn ffinio â'r llwybr. Cyfeirir at Arweinlyfr Dylunio Teithio Llesol Llywodraeth Cymru Dyddiedig 2013 ac yn benodol DE021 i DE034. Dylid ceisio arweiniad gan staff CC ar y safon sy'n berthnasol i unrhyw ddyluniad penodol.

# Safonau Dylunio Technegol Cyngor Caerdydd

## Adran E – Safonau Adeiladu

### Atodiad A : Gofynion Craidd Safonau Priffyrdd

- 1.3 Ynysoedd ar gyfer signalau traffig.
- Gan y gall y manylion hyn effeithio ar y 'track runs', dylid penderfynu ar y dimensiynau gofynnol yn gynnar yn y broses ddylunio.
    - Rhaid i'r Ynysoedd fod yn isafswm o 2.5 metr o led, ac eithrio lle mae CC yn cytuno ar unrhyw ymlacio.
    - Bydd yr Ynysoedd â chyfleusterau cerddwyr neu feiciau yn sylweddol ehangach.
    - Bydd yr hyd yn dibynnu ar y nifer a'r mathau o offer a siambrau sydd angen eu darparu.
  - Fel arfer, bydd y cwrw yn Trief neu Trief Cadet fel y cytunwyd ar sail lleoliad a chyflymder dylunio'r ffordd.
  - Y palmant i fod naill ai'n setiau sgwâr neu balmant bloc petryal yn dibynnu ar y lleoliad. Nid yw palmant concrid neu asffalt yn dderbyniol.
- 1.4 Math 1 Ffordd Breswyl (Prif Fynediad gan gynnwys Trafnidiaeth Gyhoeddus): isafswm 6.30 m
- Mae hyn yn rhagdybio Cyfyngiadau Parcio ar y ddwy ochr neu fannau parcio wedi'u mewnosod o 1.8 metr o leiaf. Pan fydd y ffordd ar radiws o 300 metr neu lai, bydd angen gwiriadau tracio ar gyfer bws 12 metr a phob un o'r cerbydau dylunio FTA yn ogystal ag ail fws. Rhaid i hyn fod yn unol â'r tabl a nodyn 1 yn Adran B.
- 1.5 Math 2 Ffordd Breswyl (Heb fod yn brif ffordd) : isafswm 5.50 m
- Pan fydd y ffordd ar radiws o 300 metr neu lai, bydd angen gwiriadau tracio ar gyfer cerbyd sbwriel a char mawr, neu ar lwybr Trafnidiaeth Gyhoeddus bws 12 metr a char mawr. Rhaid i hyn fod yn unol â'r tabl a nodyn 1 yn Adran B.
- 1.6 Rhaid olrhain mathau 3 i 5 os yw'r ffordd ar radiws o 300 metr neu lai ar gyfer Tendr Cerbydau Sbwriel a Thân Caerdydd. Lle bo angen, rhaid cynnwys lledu ffyrdd neu gyfyngiadau parcio fel rhan o'r dyluniad.
- 1.7 Bwrdd cyflymder a thwmpath ffordd
- Hyd y Llwyfan
    - Prif Ffyrdd, Prif Ffyrdd Mynediad a Llwybrau Trafnidiaeth Gyhoeddus – isafswm 6.0 metr
    - Ffyrdd Mynediad Preswyl a therfynau 20mya nad ydynt ar Lwybrau Trafnidiaeth Gyhoeddus – isafswm 4.0 metr
    - Ardaloedd Defnydd a Rennir (angen Terfyn 20mya a dylent gynorthwyo cerddwyr) – isafswm 2.5 metr
  - Uchder uwchben arwyneb presennol neu sy'n taflu allan
    - Bydd gosodiadau ar ffyrdd presennol angen arolygon cyn-gosod manwl i alluogi i'r uchder gwahaniaethol gael ei brofi ar ôl ei osod.

Safonau Dylunio Technegol Cyngor Caerdydd  
Adran E – Safonau Adeiladu  
Atodiad A : Gofynion Craidd Safonau Priffyrdd

- ii Bydd gosodiadau ar ffyrdd cerbydau newydd angen darparu arwyneb yn taflu allan ac arwyneb bwrdd i alluogi i'r uchder effeithiol gael ei brofi.
  
  - c Uchder y cwrw cyfagos
    - i Ar groesfannau is gyda phalmant botymog – 0 i 6 mm
    - ii Ym mhob lleoliad arall – 25 mm i 50 mm
  
  - d Graddiant Ramp
    - i Achosion Arbennig lle NAD oes angen lleihau cyflymder (fel croesfannau bwrdd a fewn 25 metr i strwythur) – Mwyafswm 1 mewn 20
    - ii Prif Ffyrdd, Prif Ffyrdd Mynediad a Llwybrau Trafnidiaeth Gyhoeddus
      - Terfyn 30mya – 1 mewn 16
      - Terfyn 20mya – 1 mewn 14
    - iii Ffyrdd Mynediad Preswyl
      - Terfyn 30mya – 1 mewn 14
      - Terfyn 20mya – Mwyafswm 1 mewn 12
    - iv Ardal Defnydd a Rennir
      - Mwyafswm 1 mewn 8
      - Fodd bynnag, mae hyn yn berthnasol i arwyneb y ffordd ac, oni bai fod llwybr arall ar gyfer defnyddwyr nad ydynt yn rhai modur, ni ddylai'r graddiant absoliwt uchaf (o'i gymharu ag arwynebedd lefel) fod yn fwy nag 1 o bob 10 ac yn ddelfrydol 1 o bob 12. Byddai'r terfyn hwn hefyd yn berthnasol i ddyluniad unrhyw lwybr arall sy'n osgoi'r nodwedd gostegu traffig.
  
  - e Manylion Troed Ramp
    - i Ar y ffyrdd presennol, rhaid i'r cynllun gael ei wastatu am 4 metr y tu hwnt i derfynau'r bwrdd.
    - ii Rhaid i'r arwyneb gael ei wastatu ar draws holl ran y nodwedd, neu am bellter a fydd yn sicrhau y gellir gosod dyfnder llawn y cwrs wyneb ar bob pwynt.
    - iii Er mwyn sicrhau bod y ramp yn cael ei ffurfio'n gywir, rhaid gosod a rhoi llifiad i'r cwrs wyneb ar ben y bwrdd cyn gosod y cwrs wyneb ar gyfer y ramp, os yw'n briodol.
  
  - f Lleoliad Caeadau Tyllau Archwilio
    - i Rhaid lleoli caeadau o leiaf 5 metr o ben a gwaelod rampiau Byrddau Arafu a Thwmpathau Ffordd. Gweler Adran D – Cyngor ar Elfennau Dylunio: D3 Celfi Stryd: 3.7 Caeadau tyllau archwilio Eitem c)
- 1.8 Cyrbau is
- a Lled y croesfannau:
    - i Isafswm lled croesfannau heb eu rheoli yw 1.6 metr ond dylid nodi'r canlynol:-

Safonau Dylunio Technegol Cyngor Caerdydd  
Adran E – Safonau Adeiladu  
Atodiad A : Gofynion Craidd Safonau Priffyrdd

- Isafswm lled croesfan fotymog heb ei rheoli (preswyl yn unig)-1600mm
  - Isafswm lled croesfan fotymog heb ei rheoli (manwerthu/busnes)-2400mm
  - ii Bydd lled croesfannau rheoledig yn dibynnu ar y math a'r defnydd disgwylidig ond dylid nodi'r canlynol:-
    - Isafswm lled croesfan fotymog a reolir gan Sebra (ac eithrio beicwyr)-3000mm
    - Isafswm lled croesfan fotymog a reolir gan Sebra (yn cynnwys beicwyr) - 3000mm + Lôn feicio gyfochrog.
    - Isafswm lled croesfan fotymog a reolir gan signal (ac eithrio beicwyr)-3000mm
    - Isafswm lled croesfan fotymog a reolir gan signal (yn cynnwys beicwyr) - 4000mm
    - Isafswm croesfan groesgam rhwng 2 signal gyfagos a reolir - 3000mm
  - iii Bydd lonydd gwrthlif cerbydau yn amrywio yn dibynnu a ydynt yn groesfannau sengl, deuol, aml-ddefnyddiwr neu'n aml-groesfannau cyfagos a bydd angen cyngor penodol.
  - iv Mae lled yr Ardaloedd Codi/Gollwng Beiciau fel arfer yn 0.9 metr. Os ydynt yn sylweddol hirach na hyn, mae angen slabiau palmant botymog ffordd resog 400 mm
- b Dyfnider Palmant botymog: Bydd dyfnider y palmant botymog yn amrywio yn unol â'r canllawiau a bydd yn amrywio o 1.2 metr ar gyfer ffordd ddynesu uniongyrchol i 0.4 metr ar gyfer croesfan wedi'i mewnosod ar gyffordd.
- c Dyfnider Ardal Cwrw Is i Gerddwyr a Lonydd Gwrthlif Cerbydau:  
Mwyafswm graddiant yr ardal cwrs is (cynnydd mewn goleddf croes) fydd 1 mewn 12. Yn unol â hynny, heblaw mewn ardaloedd dyrchafedig:-
- i Os yw lled y droedffordd, y droedffordd/llwybr beicio, yn llai na 2.9 metr yna bydd yr ardal cwrw is yn ymestyn i gefn y droedffordd.
  - ii Os yw lled y droedffordd, y droedffordd/llwybr beicio, yn 3 metr neu fwy yna bydd yr ardal cwrw is yn 2 o led a bydd y gweddill o'r lled ar oledf croes troedffordd gyffredinol o 1 mewn 1.
  - iii Os oes troedffordd a llwybr beicio wedi'u gwahanu yna rhaid i'r newid mewn goleddf croes ddisgyn ar y ffin rhwng y ddau.
- d Dyfnider Ardal Cwrw Is Casglu/Gollwng Beiciau: Mae'r rhain i fod yn 1 metr o ddyfnider, wedi'u mesur o'r cwrw.
- e Uchder y Cwrw Gweddilliol:



**Safonau Dylunio Technegol Cyngor Caerdydd**  
**Adran E – Safonau Adeiladu**  
**Atodiad A : Gofynion Craidd Safonau Priffyrdd**

- i Croesfannau cerddwyr ac ardaloedd Casglu/Gollwng Beiciau: 0 i 6 mm. Noder nad yw'r goddefiant arferol o 6 mm yn berthnasol.
- ii Lonydd Gwrthlif gerbydau Safonol: Isafswm o 25 mm, gorau oll 35 mm.
- iii Aml-groesfannau cyfagos: 50 mm.

2. Canllawiau a Safonau Draenio Priffyrdd:-

2.1 Bydd angen cael canllawiau penodol i'r safle gan y swyddogion perthnasol, David Brian neu Rhodri Powell.

3. Gwneuthuriadau Adeiladu Priffyrdd Mabwysiedig

3.1 Noder y dylai'r dewis o ddeunyddiau arwyneb gael ei wneud gan ystyried gofynion Llawlyfr Tir y Cyhoedd Caerdydd.

3.2 Bydd gwaith adeiladu amgen yn cael ei ystyried, neu ei gyfarwyddo, lle mae ystyriaethau technegol yn effeithio ar osod y deunyddiau yn adrannau 5 i 19.

4. Diogelu'r Haen Rhwymyn:-

4.1 Prif Ffyrdd Allanol / Prif Ffyrdd Mewnol / Prif Ffyrdd Mynediad / Llwybrau Trafnidiaeth Gyhoeddus. Pe bai'r oedi disgwylidig sy'n hwy na mis wrth osod y cwrs S/C, dylid ystyried gosod system/ haen warchod dros dro cyn ei ddefnyddio gan draffig cerbydol. Rhaid cytuno ar yr haen/ system warchod arfaethedig hon gyda CC ymlaen llaw.

4.2 Ffyrdd Mynediad Preswyl. Pe bai'r oedi disgwylidig yn hwy na thri mis wrth osod y cwrs S/C, dylid ystyried gosod system/ haen warchod dros dro cyn ei ddefnyddio gan draffig cerbydol.

4.3 Rhaid cytuno ar unrhyw haen/ system warchod arfaethedig gyda CC ymlaen llaw.

4.4 Mewn achosion lle nad yw haen/ system warchod wedi cael ei defnyddio a bod yr amseroedd uchod wedi mynd heibio, neu pan fo'r cwrs rhwymyn wedi gwisgo neu wedi ei halogi'n eithriadol, mae CC yn cadw'r hawl i fynnu bod samplau craidd yn cael eu cymryd i wirio uniondeb yr adeiladwaith. Os bydd hwn yn ddiffygiol, yna bydd rhaid gwneud mesurau adferol ar gost yr hyrwyddwr cynllun.

5. Prif Ffordd Allanol - (Ffyrdd Dosbarthedig)

5.1 45mm-50mm Cwrs Arwyneb-HRA 30/14 F 40/60pen Des Cl.911 gyda 20mm PCC PSV 65 i BS EN 13108-4

5.2 60mm AC20 Rhwymyn Dwys 100/150 i BS EN 13108-4.

5.3 200mm AC32 Sylfaen 40/60 i BS EN 13108-4.

5.4 Is-sylfaen Math 1 (isafswm 150mm) a Haen Gapio-CBR Arfaethedig.

**Safonau Dylunio Technegol Cyngor Caerdydd**  
**Adran E – Safonau Adeiladu**  
**Atodiad A : Gofynion Craidd Safonau Priffyrdd**

6. Prif Ffyrdd Mewnol / Prif Ffyrdd Mynediad / Llwybrau Trafnidiaeth Gyhoeddus  
**(Mathau 1 a 2)** Bydd y Cwrs Arwyneb yn un o ddau opsiwn yn ôl yr hyn a gynghorir.
  - 6.1 NAILL AI: 45 mm Cwrs Arwyneb Cynnwys Carreg Uchel, Asffalt Poeth wedi ei Rolio, 55/14 F, 68 PSV, 14mm maint carreg, 55% carreg, Rhwymyn gradd treiddiol 40/60 (50pen) BS EN 13108-4 (45mm HRA HAS 55/14 40/60 BS EN 13108-4)
  - 6.2 NEU: SMA 14 arwyneb PMB 75/130-75, 45-50mm o drwch, lleiafswm PSV 65, PMB - Treiddio Dosbarth 7, Pwynt Meddal Dosbarth 3 (Tabl 1 BS EN 14023) a Dosbarth 2 Adferiad Elastig (Tabl 2 BS EN 14023)
  - 6.3 60mm AC20 Rhwymyn Dwys 100/150 i BS EN 13108-4.
  - 6.4 200mm AC32 Sylfaen 40/60 i BS EN 13108-4.
  - 6.5 Is-sylfaen Math 1 (isafswm 150mm) a Haen Gapio-CBR Arfaethedig.
7. Ffyrdd Mynediad Preswyl (Hyblyg):- (Mathau 3 i 5)
  - 7.1 40mm AC10 Cwrs Arwyneb Dwys 100/150.
  - 7.2 60mm AC20 Rhwymyn Dwys 100/150 i BS EN 13108-4.
  - 7.3 100mm AC32 Sylfaen 40/60 i BS EN 13108-4.
  - 7.4 Is-sylfaen Math 1 (isafswm 150mm) a Haen Gapio-CBR Arfaethedig.
8. Ffyrdd Mynediad Preswyl (Palmant Bloc):- (Mathau 3 i 5)
  - 8.1 200x100x80mm Palmant Bloc Petryal Concridd/Clai i BS EN 1338/BS EN 1344.
  - 8.2 30mm trwch cywasgedig-Gwely 'Sharp Sand'.
  - 8.3 150mm AC32 Sylfaen 40/60 i BS EN 13108-4.
  - 8.4 Is-sylfaen Math 1 (isafswm 150mm) a Haen Gapio-CBR Arfaethedig.
9. Troedffordd/Llwybr beicio (Hyblyg)
  - 9.1 25mm AC6 Cwrs Arwyneb Dwys 100/150 BS EN 13108-4.
  - 9.2 50mm AC20 Rhwymyn Dwys 100/150 i BS EN 13108-4.
  - 9.3 150mm Math 1 Is-sylfaen.
10. Troedffordd/Llwybr beicio (Palmant Bloc)
  - 10.1 200x100x65mm Palmant Bloc Petryal Concridd/Clai i BS EN 1338/BS EN 1344.
  - 10.2 30mm trwch cywasgedig- Gwely 'Sharp Sand'.
  - 10.3 150mm Math 1 Is-sylfaen ronynnog.

**Safonau Dylunio Technegol Cyngor Caerdydd**  
**Adran E – Safonau Adeiladu**  
**Atodiad A : Gofynion Craidd Safonau Priffyrdd**

11. Troedffordd/Llwybr beicio (Palmant Bloc Gwenithfaen)

- 11.1 Palmant Gweinthfaen 70 mm o drwch (Q25/310) Maint a phatrwm gosod i argymhellion y gweithgynhyrddydd.
- 11.2 5mm Uniadau Mortar (Q25/370)
- 11.3 30mm Gwely mortar.
- 11.4 150mm Sylfaen goncrid.
- 11.5 150mm Math 1 Is-sylfaen ronynnog.

12. Slabiau palmant botymog

- 12.1 400 mm slabiau sgwâr i BS EN1340
  - a Palmant pothellog 65 mm o drwch
  - b Troedffordd / Llwybr beicio 50 mm o drwch
  - c Palmant Rhesog 50 mm o drwch
- 12.2 30mm trwch cywasgedig-Gwely 'Sharp Sand'.
- 12.3 150mm Math 1 Is-sylfaen ronynnog.
- 12.4 Rhaid i bob ymyl gael ei ffinio gan ymyl EF oni bai ei fod yn erbyn cyrbau neu balmant bloc o'r un trwch adeiladu.
- 12.5 Lliwiau
  - a Palmant Pothellog Red at croesfannau rheoledig, Llwydfelyn at croesfannau heb eu rheoli
  - b Troedffordd / Llwybr beicio Natural
  - c Palmant Rhesog Llwydfelyn

13. Ffordd Wrthlif Gerbydau Preswyl Sengl/Pâr (Hyblyg)

- 13.1 25mm AC6 Cwrs Arwyneb Dwys 100/150 BS EN 13108-4.
- 13.2 50mm AC20 Rhwymyn Dwys 100/150 i BS EN 13108-4.
- 13.3 225mm Math 1 Is-sylfaen.

14. Ffordd Wrthlif Gerbydau Preswyl Sengl/Pâr (Palmant Bloc)

- 14.1 200x100x80mm Palmant Bloc Petryal Concrid/Clai i BS EN 1338/BS EN 1344.
- 14.2 30mm trwch cywasgedig-Gwely 'Sharp Sand'.
- 14.3 225mm Math 1 Is-sylfaen.

15. Ffordd Wrthlif Gerbydau Aml-Ddefnyddiwr (mwy na 2) (Hyblyg)

- 15.1 40mm AC10 Cwrs Arwyneb Dwys 100/150 BS EN 13108-4.

**Safonau Dylunio Technegol Cyngor Caerdydd**  
**Adran E – Safonau Adeiladu**  
**Atodiad A : Gofynion Craidd Safonau Priffyrdd**

15.2 60mm AC20 Rhwymyn Dwys 100/150 i BS EN 13108-4.

15.3 100mm AC32 Sylfaen 40/60 i BS EN 13108-4.

15.4 Is-sylfaen Math 1 (isafswm 150mm) a Haen Gapio-CBR Arfaethedig.

16. Ffordd Wrthlif Gerbydau Aml-Ddefnyddiwr (mwy na 2) (Palmant Bloc)

16.1 200x100x80mm Palmant Bloc Petryal Concridd/Clai i BS EN 1338/BS EN 1344.

16.2 30mm trwch cywasgedig-Gwely 'Sharp Sand'.

16.3 150mm AC32 Sylfaen 40/60 i BS EN 13108-4.

16.4 Is-sylfaen Math 1 (isafswm 150mm) a Haen Gapio-CBR Arfaethedig.

17. Arwyneb Ffrithiant Uchel HFS

Dim ond pan fydd yn ofynnol gan CC y bydd y driniaeth hon yn cael ei defnyddio, a chaiff ei defnyddio i arwynebau arwynebau newydd neu rai sy'n rhydd o ddiffygion.

17.1 Manyleb Deunydd

HAPAS Arwyneb Ffrithiant Uchel Ardystiedig, graddio i Gymal 924 (2-5mm), lleiafswm PSV 65, mwyafswm AAV 12.

17.2 Lliw

a	Ardal Toriad neu Droad gyda PSV diffygiol	Agreg Naturiol
b	Lôn Fws	Gwyrdd Dwys
c	Lôn Feiciau	Coch Dwys
d	Mewnlenwi Croeslinellau	Coch Dwys
e	Dileu Marciau Ffyrdd	Du

18. Cyffordd ar Fwrdd Arafu, Bwrdd Cyflymder, Twmpath Ffordd a Chlustog

Cyflymder: Mae'r adran hon yn rhagdybio adeiladu dyfnder llawn. Ar ffyrdd cerbydau presennol, bydd angen profion i sefydlu bod adeiladu o leiaf yn cyfateb i'r hyn a nodir ac os nad yw, bydd angen ailadeiladu i'r dyfnder llawn. Os yw'r nodwedd yn cael ei hadeiladu ar yr arwyneb presennol yna bydd angen cytuno ar fanylion y dyluniad yn seiliedig ar y gofynion hyn. Rhaid i'r cwrs arwyneb ar gyfer y ramp ymestyn am 4 metr y tu hwnt i waelod y ramp i gyfrif am frecio a llwytho effaith.

18.1 Adeiladu hyblyg– Llwybr Trafnidiaeth Gyhoeddus (Arwyneb HRA cyfagos)

- a 45 mm AC10 Cwrs Arwyneb Dwys 100/150 PMB (Rhwymyn wedi ei addasu â pholymer).
- b 75 mm (uwch) AC20 Rhwymyn Dwys 100/150 i BS EN 13108-4.
- c 60 mm (is) AC20 Rhwymyn Dwys 100/150 i BS EN 13108-4.

**Safonau Dylunio Technegol Cyngor Caerdydd**  
**Adran E – Safonau Adeiladu**  
**Atodiad A : Gofynion Craidd Safonau Priffyrdd**

- d 200 mm AC32 Sylfaen 40/60 i BS EN 13108-4.
  - e Is-sylfaen Math 1 (isafswm 150mm) a Haen Gapio-CBR Arfaethedig.
- 18.2 Palmant Bloc - Llwybr Trafnidiaeth Gyhoeddus (Arwyneb HRA cyfagos) Dim ond i ben y bwrdd y mae hwn yn berthnasol, rhaid i'r rampiau fod yr un fath â'r adeiladu hyblyg cyfatebol. Mae'r palmant bloc ar y llwyfandir i gael ei ffinio â chyrbau sianel 125x225 wedi'u gosod ar eu hymyl.
- a 200x100x80 mm Palmant Bloc Petryal Concridd/Clai i BS EN 1338/BS EN 1334 (uwch)
  - b 30 mm trwch cywasgedig - Gwely 'Sharp Sand'
  - c 70 mm (is) AC20 Rhwymyn Dwys 100/150 i BS EN 13108-4
  - d 200 mm AC32 Sylfaen 40/60 i BS EN 13108-4.
  - e Is-sylfaen Math 1 (isafswm 150mm) a Haen Gapio-CBR Arfaethedig.
- 18.3 Adeiladu hyblyg – Ffyrdd Mynediad Preswyl (Arwyneb AC10 cyfagos)
- a 40mm AC10 Cwrs Arwyneb Dwys 100/150 PMB (Rhwymyn wedi ei addasu â pholymer).
  - b 75 mm (uwch) AC20 Rhwymyn Dwys 100/150 i BS EN 13108-4.
  - c 60 mm (is) AC20 Rhwymyn Dwys 100/150 i BS EN 13108-4.
  - d 100 mm AC32 Sylfaen 40/60 i BS EN 13108-4.
  - e Is-sylfaen Math 1 (isafswm 150mm) a Haen Gapio-CBR Arfaethedig.
- 18.4 Palmant Bloc - Ffyrdd Mynediad Preswyl (Arwyneb AC10 cyfagos) Dim ond i ben y bwrdd y mae hwn yn berthnasol, rhaid i'r rampiau fod yr un peth â'r adeiladu hyblyg cyfatebol.
- a 200x100x80 mm Palmant Bloc Petryal Concridd/Clai i BS EN 1338/BS EN 1334 (uwch)
  - b 30 mm trwch cywasgedig-Gwely 'Sharp Sand'
  - c 70 mm (is) AC20 Rhwymyn Dwys 100/150 i BS EN 13108-4
  - d 150 mm AC32 Sylfaen 40/60 i BS EN 13108-4.
  - e Is-sylfaen Math 1 (isafswm 150mm) a Haen Gapio-CBR Arfaethedig.
19. Arwyneb Carreg Naturiol:-
- 19.1 Deunydd Arwyneb fel yn Llawlyfr Tir y Cyhoedd Caerdydd.
  - 19.2 Ffurf yr adeiladwaith i'w gytuno gyda CC ymlaen llaw.
20. Detholiad Palmant Bloc:-

**Safonau Dylunio Technegol Cyngor Caerdydd**  
**Adran E – Safonau Adeiladu**  
**Atodiad A : Gofynion Craidd Safonau Priffyrdd**

20.1 Fel y nodir yn Llawlyfr Ardaloedd Cyhoeddus Caerdydd ac yn dilyn enghreifftiau fel y'u cymeradwywyd.

20.2 Slabiau Palmantu Concrit Graean Agored 300x300x65 mm mewn lliw Llwydarian neu i BS EN 1338/BS EN 1344

20.3 Neu Slabiau Palmant Concrit Graean Agored 400x400x65-70 mm mewn lliw Llwydarian neu i BS EN 1338/BS EN 1344

20.4 30 mm o drwch cryno - gwelyo Tywod Miniog.

20.5 Is-sylfaen Ronynnog Math 1 150 mm.

21. Tabl Trwch yr Is-sylfaen a Haen Gapio CBR Arfaethedig:-


Gwerth CBR	Trwch Math 1 Is-Sylfaen mewn mm yn unol â Cl.803 (SHW 1986)	Trwch yr Haen Gapio mewn mm yn unol â Cl.613 (SHW 1986)
>5%	300	-
>2% to <5%	150	350
<2%	150	600

# Safonau Dylunio Technegol Cyngor Caerdydd


## Adran E – Safonau Adeiladu

### Atodiad B : Lleoliad Pwyntiau Croesi i Gerddwyr


#### A Croesfannau heb eu rheoli (Pwyntiau Croesi Cyrbau Is neu weithiau Groesfan Cwrteisi)




Elfennau allweddol o leoliadau cwrb is




Dynesu uniongyrchol  
 $d_1 = 1200 \text{ mm}$




Mewnosod D llai na 4 m  
 $d_2 = 800 \text{ mm}$



Mewnosod D fwy  
na 4 m :  $d_3 = 400 \text{ mm}$



Pell o Gyffordd  
 $d_4 = 800 \text{ mm}$



Cyffordd Gyda  
Llwybr  
 $d_5 = 1200 \text{ mm}$

# Safonau Dylunio Technegol Cyngor Caerdydd

## Adran E – Safonau Adeiladu

### Atodiad B : Lleoliad Pwyntiau Croesi i Gerddwyr

1. Rhaid gosod y rhain bob amser mewn parau gyda'r pothellau wedi eu halinio'n gywir i arwain defnyddwyr â nam ar eu golwg tuag at y pwynt croesi cyfatebol.
2. Yn y cyffyrdd, mae'r rhain yn aml yn cael eu gosod yn anghywir yn rhy agos at linell 'lldiwch' gan achosi problemau, ac mae hyn yn deillio o ddealltwriaeth anghywir o "linell awydd" a'r defnyddwyr y darperir y cyrbau is ar eu cyfer. Yn aml, caiff y term hwn ei gamgymhwyso wrth ddylunio croesfannau is gan ei fod yn berthnasol i goridor, nid lleoliad manwl, hyd yn oed pan fydd yn seiliedig ar ymddygiad a arsylwyd.
3. Er bod llinell awydd glir i gerddwyr i ddilyn y briffordd ar hyd ffordd ochr, ac mae cerddwyr sy'n gallu camu i fyny ac i lawr cyrbau ddilyn y llinell 'lldiwch', nid yw hyn yn golygu mai'r lle cywir ar gyfer croesfan cwrp is yw'r union linell honno.
4. Mae'r Ffigyrau yn y canllaw i gyd yn dangos y palmant botymog yn dechrau'n glir o'r radii ceg y gloch. Mae gan hyn dair mantais ac un anfantais:-
  - 4.1 Yn gyffredinol, byddai hyn yn arwain at i'r cyrbau is (yr unig ffordd i ddefnyddiwr â nam ar eu symudedd i groesi'r ffordd - ac ar groesfannau defnydd a rennir, y rhan fwyaf o feicwyr) fod y tu ôl i safle car sy'n aros yn y llinell lldiwch.
    - a) Mae gosod y cyrbau is yn ôl tua 4 i 6 metr yn sicrhau bod y groesfan cwrp is ar gael i'w defnyddio bob amser ac eithrio pan fydd cerbyd hir yn aros ar y llinell lldiwch.
  - 4.2 Pan fo'r cyrbau is are ar radiws cyffordd, mae risg (sy'n cynyddu'r agosaf y mae at y briffordd) y bydd cyfeiriad y groesfan a ddangosir gan y palmant botymog yn dod yn amwys (hynny yw, y gellid ei ddehongli'n hawdd gan gerddwyr â nam ar eu golwg sy'n dod ar hyd y droedffordd o'r ffordd ochr fel palmant botymog ar gyfer croesi'r briffordd).
    - a) Mae cael y cyrbau is ac felly'r palmant botymog yn glir o'r rhan fwyaf o radiws y gyffordd yn osgoi'r broblem.
  - 4.3 Os yw cerddwr, p'un a yw â nam ar ei symudedd neu beidio, yn croesi'r ffordd ochr ar y cyrbau is a bod cerbyd yn troi i mewn (ac yn ildio i'r cerddwr fel y nodir yn y Cod Priffyrdd), bydd yn gyffredinol yn glir o'r brif ffordd.
    - a) Mae gosod y cyrbau is yn ôl yn lleihau'r risg y bydd cerbyd sy'n troi yn cael ei daro gan gerbyn sy'n ei ddilyn ar hyd y brif ffordd.
  - 4.4 Yr anfantais yw lle mae'r lleiniau gwelededd yn gyfyngedig o ran dyfnder, bydd gwelededd cyfyngedig i ddefnyddwyr o'r groesfan is a cherbydau sy'n troi i mewn.



# Safonau Dylunio Technegol Cyngor Caerdydd

## Adran E – Safonau Adeiladu

### Atodiad B : Lleoliad Pwyntiau Croesi i Gerddwyr

- a) Mae'r gostyngiad mewn gwelededd sy'n deillio o'r cwrw is yn cael ei osod yn ôl yn cael ei wrthbwyso gan y ffaith y bydd cyflymder cerbydau troi ar y lleiaf bosib wrth iddynt droi.

#### **B Croesfannau rheoledig (Croesfannau Sebra, Beicio Cyfochrog, Cefyllau Cyfochrog, Pâl a Fesul Cam i Gerddwyr)**

1. Mae'r gofynion ar gyfer croesfannau rheoledig mewn perthynas â chyfarpar a marciau ffyrdd yn gyffredinol yn sicrhau bod y rhain yn cael eu hatal rhag bod yn rhy agos at y gyffordd ac felly mae'n anarferol gweld y materion a all effeithio ar groesfannau na reolir yn digwydd.
2. Fodd bynnag, mae llawer o'r canllawiau yn adran A yn dal i fod yn berthnasol.

#### **C Croesfannau Achlysurol**

1. Mewn rhai strydoedd preswyl, efallai y bydd yn anodd darparu cyrbau is wedi eu gosod yn ôl o'r gyffordd fel y nodir yn adran A oherwydd presenoldeb lonydd gwrthlif cerbydau ar gyfer tramwyfeydd.
2. Cyn belled â bod gan y lôn wrthlif uchder cwrw digonol, nid oes angen cyfleusterau arbennig i ddefnyddwyr â nam ar eu golwg.
3. Os oes lonydd gwrthlif sydd bron gyferbyn, a bod uchder cyrbau o fewn yr ystod arferol, yna gall y rhain fod yn ddigonol ar gyfer defnyddwyr â nam ar eu symudedd. Fodd bynnag, dim ond os yw'r llif traffig yn golygu bod gan ddefnyddwyr amser digonol i drafod y cwrw er mwyn gadael y ffordd gerbydau mewn ffordd hamddenol y bydd hyn yn wir. Bydd hyn angen asesiad safle penodol, y dylid ei gofnodi.
4. Byddai'n amhriodol newid yr uchder cwrw ar y lôn wrthlif i gwrw is gyda phalmant botymog oherwydd:-
  - a) Bydd defnyddwyr sy'n agored i niwed yn cael yr argraff bod hwn yn lle "diogel" i aros ac yn croesi pan fydd hefyd ar lwybr cerbydau uniongyrchol.
  - b) Gall defnyddwyr â nam ar eu golwg ei chael hi'n anodd penderfynu p'un a ydynt wedi cyrraedd cefn y droedffordd, gyda'r risg y gallent fynd i mewn i'r ffordd ac yn ffwndrus.
  - c) Mae traffig cyson ar y palmant botymog yn debyg o arwain at iddynt fethu, gan arwain at beryglon baglu a chostau cynnal a chadw ychwanegol.
  - d) Efallai y bydd perchennog yr eiddo yn gwrthwynebu i gerddwyr "loetran" y tu allan i'w heiddo.

#### **D Croesfannau (Cerddwyr/Beicio) Cyfochrog**

1. Mae'r rhain yn fath newydd o groesfan a gyflwynir yn Rheoliadau Arwyddion Traffig a Chyfarwyddyd Cyffredinol dyddiedig 2016 (TSRGD 2016) a thrafodir y defnydd o balmant botymog yn yr adran honno.

#### **E Croesfannau Ceffylau "Pegasus" Cyfochrog**

# Safonau Dylunio Technegol Cyngor Caerdydd

Adran E – Safonau Adeiladu

Atodiad B : Lleoliad Pwyntiau Croesi i Gerddwyr


1. Bydd cynllun y math hwn o groesfan yn dibynnu ar amodau'r safle a rhaid ei drafod yn gynnar yn y broses o ddylunio'r cynllun.

# Safonau Dylunio Technegol Cyngor Caerdydd

## Adran E – Safonau Adeiladu


### Atodiad C : Cynllun Cyrbau Is a Lonydd Gwrthlif Cerbydau

#### A Cynllun a Graddiant Cyrbau Is




Troedffordd/Ffordd Beicio  
< 3 m o led

Dropped Kerb 1.6 m minimum




Troedffordd/Ffordd Beicio  
> 2.9 m o led

Dropped Kerb 1.6 m minimum




Troedffordd / Llwybr Beicio wedi'i  
wahanu (Ffordd feicio yn y cefn)

Lleiafswm Cwrbs Is 1.6 m



Ac eithrio Pwynt Codi  
Gollwng Beiciau

Cwrbs Is 1.0 m enwol



Llwybr Beicio/Troedffordd wedi'u  
Gwahanu  
(Troedffordd i'r Cefn)


Lleiafswm Cwrbs Is 1.6 m

# Safonau Dylunio Technegol Cyngor Caerdydd

## Adran E – Safonau Adeiladu


### Atodiad C : Cynllun Cyrbau Is a Lonydd Gwrthlif Cerbydau

#### B Cyrbau Is ar Fwrdd Cyflymder



#### Croesfan Cwrb Is


Lleiafswm Cwrb Is 1.6 m



#### Croesfan Sebra neu Bâl

Lleiafswm cwrb is 2.4 m

BN2\* = BN2(50)



#### Croesfan Cerddwyr a Beicwyr yn Gyfochrog

Cyrbau Is 2.4 m a 1.5 lleiafswm (0.4 bwlch hefyd yn is)


BN\* = BN2(50)

# Safonau Dylunio Technegol Cyngor Caerdydd


## Adran E – Safonau Adeiladu

### Atodiad C : Cynllun Cyrbau Is a Lonydd Gwrthlif Cerbydau


#### C Lonydd Gwrthlif Cerbydau



Troedffordd / Ffordd Beicio  
<math>< 3\text{ m}</math> o led



Troedffordd/Ffordd Beicio  
> 2.9 m o led



Troedffordd / Llwybr Beicio wedi'i wahanu  
(Ffordd Beicio yn y cefn)

Lleiafswm Cwrn Is 1.6 m

#### D Graddiant Cyrbau Is

# Safonau Dylunio Technegol Cyngor Caerdydd

## Adran E – Safonau Adeiladu

### Atodiad C : Cynllun Cyrbau Is a Lonydd Gwrthlif Cerbydau

1. Nodir yn y canllaw Symudedd Cynhwysol na ddylai'r graddiant fod yn fwy nag 1 mewn 12 ac argymhellir y dylai'r 900 mm cefn o droedffordd gael ei gadw ar yr un goleddf croes â gweddill y droedffordd.
2. Fodd bynnag, gydag wyneb cwrw o 125 mm a goleddf croes 1 mewn 40 a graddiant 1 mewn 12, byddai'n rhaid i'r droedffordd fod yn 2.150 m o led i gwrdd â'r meini prawf goleddf croes a 3.050 m o led i gael strïbed 900 mm o led nas aflonyddir arno.
3. Gyda throedffordd safonol 2 metr o led, bydd graddiant lôn wrthlif safonol rhwng 1 mewn 11.4 ar gyfer cwrw 125 mm a 0 mm yn uwch ac 1 mewn 13.9 ar gyfer cwrw 100 mm a 6 mm o stand unionsyth.
4. Ni fyddai'r sefyllfa ddelfrydol ond yn bosibl pan fyddai'r cwrw is yn cael ei ddarparu mewn llwybr beicio/ llwybr beicio a rennir o 3.1 metr.

### **E Graddiant Lôn Wrthlif Gerbydau**

5. Mae'r stand unionsyth ar y cyfleusterau hyn yn isafswm o 25 mm, gyda 35 mm yn cael ei ffafrio a hyd yn oed 50 mm mewn achosion eithriadol (fel y trafodir isod).
6. Yn seiliedig ar y meini prawf hyn, pan fo'r lôn wrthlif ar droedffordd 2 m, byddai'r cynnydd mewn goleddf croes o 1 mewn 40 (2.5%) i 1 mewn 13 (7.6%). Fodd bynnag, pe bai strïbed o 900 mm o 1 mewn 40 yn cael ei gynnal yna byddai'r lôn wrthlif ar raddiant o 1 mewn 8.6 (12%). Ystyrir bod hyn yn rhy serth ac y byddai'n anodd i unrhyw ddefnyddiwr cadeiriau olwyn a oedd yn ei wynebu ac i gerbydau fynd i mewn a gadael yr eiddo cyfagos mewn amodau rhewllyd. O ganlyniad, ar gyfer troedffordd 2 m, dylid datblygu'r lôn wrthlif gerbydau dros led cyfan y droedffordd.
7. Pan fo lôn wrthlif ar droedffordd/beicio a rennir 3.1 metr byddai opsiwn i gadw'r strïbed 900 mm ar gefn y llwybr gyda goleddf croes 1 mewn 40 a fyddai'n rhoi gwell ansawdd taith i gadeiriau olwyn a defnyddwyr eraill yn ogystal ag i feicwyr mewn amodau traffig ysgafn.
8. Mae'r sefyllfa ar gyfer llwybrau ar wahân i gerddwyr a chynlluniau trac Beicio yn well eto i gerddwyr gan ei bod hi'n glir y dylai'r elfen cwrw is gael ei gyfyngu i'r trac Beicio.

### **F Cyfrifo'r Lled Troedffordd sydd ei Angen ar gyfer Cyrbau Is**

1. Mae'r ddau achos uchod wedi eu seilio ar gael uchder cwrw safonol 125 mm, sydd ddim bob amser yn wir, yn enwedig lle mae bwrdd uwch godi neu nodwedd debyg, neu lle ceir uchder cwrw is ar hyn o bryd.
2. Nid yw'r cyfrifiad yn cynnwys yr wyneb cwrw amgylchynol yn uniongyrchol, ond yn hytrach o faint y caiff wyneb y cwrw ei ostwng (d). d yw canlyniad tynnu uchder cwrw gweddilliol ar y cwrw is o'r uchder cwrw amgylchynol, a gallai fod yn 125 - 0 neu 125 - 25 neu 50 - 0 neu unrhyw werthoedd eraill.
3. Ceir lled (w) y droedffordd is trwy ddefnyddio'r fformiwla  $w = d \times 120 \div 7$ .
4. Pan fo'r lled a gyfrifir yn llai na lled y palmant botymog, dylai fod yn hafal i'r palmant botymog.
5. Pan fo lled y droedffordd llai y lled cyfrifedig, neu fotymog, yn llai na 900 mm bydd yr ardal is yn cael ei datblygu dros led cyfan y droedffordd.
6. Pan fo lled y droedffordd llai'r lled cyfrifo neu fotymog yn fwy na 900 mm, rhaid i'r ardal is gael ei dylunio i gymryd i ystyriaeth nodweddion eraill, megis y dyluniad rhwng y llwybr beicio a'r droedffordd, cyn belled ag y

# Safonau Dylunio Technegol Cyngor Caerdydd

## Adran E – Safonau Adeiladu

### Atodiad C : Cynllun Cyrbau Is a Lonydd Gwrthlif Cerbydau

bydd o leiaf 900 mm o led yn cael ei gadw ar oledf croes 1 mewn 40 a bod y mwyafswm graddiant ar yr ardal is yn llai na 1 mewn 12.

#### **G Lonydd Gwrthlif Cerbydau Lluosog i Ddatblygiadau Newydd**

7. Pan fo mwy nag un lôn gerbyd yn croesi dros droedffordd/llwybr beicio a rennir neu'n bwysicach efallai trac beicio, byddai'r newidiadau mewn lefel yn golygu gostyngiad sylweddol mewn ansawdd teithio, sy'n annerbyniol.
8. Y penderfyniad cyntaf yw pa mor bell y mae angen i ddwy lôn wrthlif fod ar wahân i gael eu hystyried yn lonydd gwrthlif unigol. Yn seiliedig ar amlder amser o 2 eiliad a chyflymder beicwyr o 20 mya, byddai hyn yn gofyn am wahaniad o 18 metr. Felly, os yw tramwyfeydd yn agosach na'r pellter hwn, heb gynnwys lled yr adran cwrb is, yna ystyrir y byddai'n cael effaith andwyol ar ansawdd y daith. I droedffordd, byddai'r gofod yn cael ei leihau i 6 metr.
9. Mewn cynlluniau lle mae lonydd gwrthlif yn nes na hyn, yr ateb yw gollwng y cwrb dros ei hyd cyfan, ond i gadw stand unionsyth cwrb o 50 mm.
10. Byddai angen adeiladu'r ardal gyfan i safonau lôn wrthlif, ond bydd mantais mewn symlrwydd adeiladu a hyblygrwydd yng nghynllun y lleiniau tai gan na fydd lleoliadau'r tramwyfeydd yn sefydlog.
11. Er mwyn atal y llwybr beiciau rhag cael ei drin fel cilfach barcio estynedig, byddai'n rhaid i'r cynllun gynnwys llinellau melyn dwbl ar hyd ffryntiad tai. Efallai y bydd angen ymestyn hyn ar bob pen i atal parcio ychydig y tu allan i'r ardal lôn wrthlif.
12. Pan fo lonydd gwrthlif yn gwasanaethu aml dramwyfeydd neu dramwyfeydd dwbl, dylid lleihau lled y cwrb is i 4 metr ar gyfer aml dramwyfeydd a 2 metr i dramwyfeydd dwbl.

Safonau Dylunio Technegol Cyngor Caerdydd  
Adran E – Safonau Adeiladu  
Atodiad D : Y Dyluniad a Phwyntiau Codi a Gollwng Beiciau

**Pwyntiau Casglu a Gollwng Beiciau**

(Pan nad ydynt ar gyrbau is cerddwyr)  
Rhoddir y symbolau yn yr allwedd isod.



Palmant botymog llwydfelyn (neu balmant botymog coch yn ôl yr angen)



Palmant botymog Ysgol mewn Llwyd



Palmant botymog llinellau tram mewn Llwyd



Palmant rhesog mewn llwydfelyn



Defnydd a rennir (Troedffordd / llwybr beicio) (Diag 956)



Defnydd a Rennir Dewisol (Troedffordd / Llwybr Beicio) (Diag 956)



Beicwyr yn ailymuno â ffordd gerbydau (amrywiad Diag 966)



Diwedd y llwybr beicio (Diag 965)



Defnydd wedi'i wahanu (arwydd cerddwyr | beicwyr) (Diag 957)



Arwydd llwybr beicio (Diag 955)



Opsiwn i feicwyr ddod i lawr oddi ar y beic (amrywiad Diag 966) (DIM OND pan na chaniateir beicio tu hwnt i'r pwynt hwn)



Bolard gydag adlewyrchwyr Coch / Gwyn



Marcio ymyl sribed clustogfa llwybr beicio (dewisol)



Stribed amlinellwr neu gwrw BN llawn 50 mm



Llwybr beicio ar y ffordd (cynghorol neu orfodol)



Cwrw uchder llawn (ac eithrio mewn lleoliadau cyrbau is)



Cwrw is codi / gollwng beiciau




# Safonau Dylunio Technegol Cyngor Caerdydd

## Adran E – Safonau Adeiladu

### Atodiad D : Y Dyluniad a Phwyntiau Codi a Gollwng Beiciau


**Math 1. Mynediad uniongyrchol:**– o'r llwybr beicio ar y ffordd (cynghorol neu orfodol) Ymadael yn erbyn y llif (Diwedd y llwybr) Yn addas ar gyfer cynlluniau a rennir ac ar wahân



Nodiadau:

- Mae dyfnder palmant ysgol yn 2.4 metr\*
- Lleiafswm lled palmant llinellau tram yw 1.0 metr
- Gallai'r llwybr beiciau ar y ffordd fod yn adran fer (gyda thapr, o bosib) a ddarperir yn bennaf i arwain cerbydau modur i ffwrdd o'r man mynediad
- Efallai y bydd angen Pwynt Gollwng Byr (SDoP) i alluogi beicwyr adael y droedffordd / llwybr beicio a rennir i groesi'r ffordd

**Math 2. Ymadael uniongyrchol:** – i lwybr beiciau ar y ffordd (cynghorol neu orfodol) Mynediad yn erbyn llif (dechrau'r llwybr) Yn addas ar gyfer cynlluniau a rennir ac ar wahân



Nodiadau:


- Mae dyfnder palmant ysgol yn 2.4 metr\*
- Lleiafswm lled palmant llinellau tram yw 1.0 metr
- Gallai'r llwybr beiciau ar y ffordd fod yn adran fer (gyda thapr, o bosib) a ddarperir yn bennaf i arwain cerbydau modur i ffwrdd o'r man mynediad
- Efallai y bydd angen Pwynt Codi Byr (SDoP) i alluogi beicwyr i groesi'r ffordd a chael mynediad i'r droedffordd / llwybr beicio a rennir

# Safonau Dylunio Technegol Cyngor Caerdydd

## Adran E – Safonau Adeiladu

### Atodiad D : Y Dyluniad a Phwyntiau Codi a Gollwng Beiciau


**Math 3. Mynediad neu ymadael wedi'i wrthbwyso:** Triniaeth wahanedig dwy-ffordd Yn addas ar gyfer cynlluniau a rennir ac ar wahân



Nodiadau:

- Mae dyfnder palmant ysgol a llinellau tram yn 2.4 metr\*
- Dylai lled lleiaf y llwybr beicio fod yn 1.5m ynghyd â strised clustogfa
- Dylai'r strised amlinellol gromennog fod yn 12 i 20 mm o uchder gyda bylchau draenio, neu gwrb 'batter' llawn 25 mm gyda'r llwybr beicio ar y lefel is. Nid yw llinell wedi'i phaentio yn ddewis amgen a ganiateir
- Gellir amrywio hyd y cwrb is i weddu, heb bryderu am yr angen am balmant botymog
- Gellir lleoli'r cwrb is yn agos at y palmant llinellau tram ond ni ddylai'r cwrb pontio orgyffwrdd ag ef.

**Math 4. Ymadael neu fynediad wedi'i wrthbwyso:** Triniaeth wedi'i gwahanu ddwy ffordd Yn addas ar gyfer cynlluniau a rennir ac ar wahân




Nodiadau

- Mae dyfnder palmant ysgol a llinellau tram yn 2.4 metr\*
- Dylai lled lleiaf y llwybr beicio fod yn 1.5m ynghyd â strised clustogfa
- Dylai'r strised amlinellol gromennog fod yn 12 i 20 mm o uchder gyda bylchau draenio, neu gwrb 'batter' llawn 25 mm gyda'r llwybr beicio ar y lefel is. Nid yw llinell wedi'i phaentio yn ddewis amgen a ganiateir
- Gellir amrywio hyd y cwrb is i weddu, heb bryderu am yr angen am balmant botymog
- Gellir lleoli'r cwrb is yn agos at y palmant llinellau tram ond ni ddylai'r cwrb pontio orgyffwrdd ag ef.

# Safonau Dylunio Technegol Cyngor Caerdydd Adran E – Safonau Adeiladu

## Atodiad D : Y Dyluniad a Phwyntiau Codi a Gollwng Beiciau


**Math 5. Mynediad neu ymadael wedi'i wrthbwysu:** Triniaeth wedi'i gwahanu ddwy ffordd Yn addas ar gyfer cynlluniau a rennir ac ar wahân



### Notes

- Mae hwn yn hybrid o Fathau 3 a 7.
- Mae dyfnder y palmant ysgol a llinellau tram yn 2.4 metr\*
- Dylai lled lleiaf y llwybr beicio fod yn 1.5m ynghyd â strïbed clustogfa
- Dylai'r strïbed amlinellol gromennog fod yn 12 i 20 mm o uchder gyda bylchau draenio, neu gwrw 'batter' llawn 25 mm gyda'r llwybr beicio ar y lefel is. Nid yw llinell wedi'i phaentio yn ddewis amgen a ganiateir.
- Gellir amrywio hyd y cwrw is i weddu, heb bryderu am yr angen am balmant botymog
- Rhaid i'r palmant Llinellau tram fod yn glir o'r ramp.

**Math 6. Mynediad neu ymadael wedi'i wrthbwysu:** Triniaeth wedi'i gwahanu ddwy ffordd Yn addas ar gyfer cynlluniau a rennir ac ar wahân




### Nodiadau

- Mae hon yn hybrid o Fathau 4 a 8.
- Mae dyfnder y palmant ysgol a llinellau tram yn 2.4 metr\*
- Dylai lled lleiaf y llwybr beicio fod yn 1.5m ynghyd â strïbed clustogfa
- Dylai'r strïbed amlinellol gromennog fod yn 12 i 20 mm o uchder gyda bylchau draenio, neu gwrw 'batter' llawn 25 mm gyda'r llwybr beicio ar y lefel is. Nid yw llinell wedi'i phaentio yn ddewis amgen a ganiateir
- Gellir amrywio hyd y cwrw is i weddu, heb bryderu am yr angen am balmant botymog
- Rhaid i'r palmant Llinellau tram fod yn glir o'r ramp.

# Safonau Dylunio Technegol Cyngor Caerdydd Adran E – Safonau Adeiladu

## Atodiad D : Y Dyluniad a Phwyntiau Codi a Gollwng Beiciau


**Math 7. Codi Byr - Mynediad gyda'r Ilif:** Ymadael yn erbyn llif (Diwedd y llwybr) Dim ond yn addas ar gyfer ardaloedd troedffordd / llwybrau beicio a rennir



Nodiadau:

- Mae dyfnder y palmant ysgol yn 1.2 metr
- Os yw hyd y cwrn is yn 0.9 metr ac mae'r dyfnder yn 1 metr yna nid oes angen palmant botymog

**Math 8. Gollwng Byr - Ymadael gyda'r Ilif:** Ymadael – Ail-ymuno â'r ffordd gerbyd: Mynediad trwy groesi'r ffordd: Dim ond yn addas ar gyfer ardaloedd troedffordd / llwybrau beicio a rennir




Nodiadau:

- Mae dyfnder y palmant ysgol yn 1.2 metr
- Os yw hyd y cwrn is yn 0.9 metr ac mae'r dyfnder yn 1 metr yna nid oes angen palmant botymog


**Math 7a / 8a. Codi neu Ollwng Hir**

**Math 7a / 8b. Codi neu Ollwng ger Troedffordd / Grisiau**

**Math 7a / 8a**



**Math 7a / 8b**



Nodyn: Mae'r rhain yn dangos y defnydd o driniaeth resog lle mae'r pwynt codi / gollwng dros 2 m o hyd neu os oes perygl i ddefnyddwyr â nam ar eu golwg


# Safonau Dylunio Technegol Cyngor Caerdydd

## Adran E – Safonau Adeiladu

### Atodiad D : Y Dyluniad a Phwyntiau Codi a Gollwng Beiciau

#### Math 9: Croesfan rhwng troedffordd/ llwybr beicio a throedffordd:

Nid yw ymdriniaeth y droedffordd yn ymwneud â'r math o groesfan, ond mae angen lledu'r troedffordd os oes goleuadau neu signalau  
Dim ond yn addas ar gyfer ardaloedd troedffordd / llwybrau beicio a rennir




#### Nodiadau:

- Mae'r cynllun hwn yn berthnasol i unrhyw gynllun croesfan (gyda'r palmant botymog pothellog priodol) lle mae beicwyr yn debygol o groesi
- Efallai na fydd angen pwyntiau codi/ gollwng beiciau lle mae'r groesfan ar fwrdd cyflymder
- Rhaid lledu'r droedffordd i 2.6 m o leiaf lle mae croesfan reoledig gyda goleuadau neu signalau
- Gweler y cynlluniau eraill am ragor o fanylion

# Safonau Dylunio Technegol Cyngor Caerdydd Adran E – Safonau Adeiladu

Atodiad D : Y Dyluniad a Phwyntiau Codi a Gollwng Beiciau  
Math 10: Opsiynau ymdriniaeth ar gyfer troedffordd a llwybr beicio ar  
wahân wrth gyffyrdd y ffordd ymyl:




## Nodiadau:

- Mae'r brasluniau hyn yn dangos yr elfennau amrywiol ac ni fwriedir iddynt fod yn ddyluniadau, nac i'w defnyddio fel hyn.
- Mae'n arferol i'r llwybr beicio barhau ar draws y gyffordd a dylid osgoi newidiadau trefn neu i'r droedffordd/llwybr beicio a rennir.
- Rhaid i led croesfan gyffyrddol braich y ffordd ymyl fod yn 2.8 m o leiaf, ond yn 3.2 m yn ddelfrydol
- Dylid ystyried dyrchafu braich y ffordd ymyl.
- Mae angen croesfannau botymog ar y ffordd ymyl os oes troedffordd ar ochr draw'r brif ffordd. Sylwch ar yr angen am balmant Botymog Ysgol ar ochr draw'r brif ffordd.
- Os yw'r llwybr beicio'n dod i ben ac nad oes unrhyw gyrbau isel, yna mae angen cyfleuster casglu/gollwng beiciau. Gan ddibynnu ar asesiad, efallai na fydd angen palmant botymog arni, neu fod angen palmant Rhesog.
- Os yw'r llwybr beicio'n newid i droedffordd/llwybr beicio a rennir ar ôl iddo groesi'r gyffordd, ni ddylid gosod unrhyw arwyddion na phalmant botymog.

# Safonau Dyluniol Technegol Cyngor Caerdydd

## Adran E – Safonau Adeiladu


Atodiad D : Y Dyluniad a Phwyntiau Codi a Gollwng Beiciau  
**Math 10 (parhad): Opsiynau ymdriniaeth ar gyfer troedffordd a llwybr beicio ar wahân wrth gyffyrdd y ffordd ymyl:**



Nodiadau:

- Mae'r brasluniau hyn yn dangos yr elfennau amrywiol ac ni fwriedir iddynt fod yn ddyluniadau, nac i'w defnyddio fel hyn.
- Nid yw trefn y droedffordd a'r llwybr beicio yn newid egwyddorion y dyluniad hwn.
- Rhaid i led croesfan fotymog braich y ffordd ymyl fod yn 2.0 m.
- Mae angen croesfannau botymog ar y ffordd ymyl os oes troedffordd ar ochr draw'r brif ffordd. Sylwch ar yr angen am balmant Botymog Ysgol ar ochr draw'r brif ffordd.

**Math 11: Opsiynau ymdriniaeth ar gyfer lonydd cerdded a beicio ar wahân ar lwybrau beicio a throedffyrdd**



Nodiadau:

- Mae'r brasluniau hyn yn dangos yr elfennau amrywiol ac ni fwriedir iddynt fod yn ddyluniadau, nac i'w defnyddio fel hyn.
- Nid yw trefn y droedffordd a'r llwybr beicio yn newid egwyddorion y dyluniad hwn oni bai bod y llwybr ar gyfer cerddwyr yn unig, ac os felly nid oes angen bwch os yw'r droedffordd wrth ymyl y lôn gerbydau.
- Bydd gofynion botymog ar gyfer y llwybr yn amrywio, gan ddibynnu ar y math o lwybr.

# Safonau Dylunio Technegol Cyngor Caerdydd

## Adran E – Safonau Adeiladu

### Atodiad D : Y Dyluniad a Phwyntiau Codi a Gollwng Beiciau

#### **Pwyntiau codi a gollwng beiciau**

1. Rhaid i unrhyw bwynt codi neu ollwng fod o fewn yr ardal sydd wedi'i ffinio â phalmant botymog llinellau tram ac fel arfer maent bellter byr o'r pwyntiau hyn.
2. Bydd union gynllun y nodweddion yn dibynnu ar y math o bwynt codi a gollwng a nodweddion cyfagos eraill fel y dangosir yn y brasluniau canlynol. Bydd angen dehongli'r egwyddorion a roddir i gyd-fynd â'r amodau gwirioneddol ac nid y rhai delfrydol a ddangosir.
3. Seiliwyd y brasluniau ar ddyluniadau gan ddefnyddio troedffordd/beicio a rennir a bydd angen eu hamrywio os oes cynllun llwybr cerdded a beicio ar wahân yn cael ei adeiladu. Gwelir y rhain yn glir yn y Canllawiau ar Ddefnydd Palmant Botymog, Dylunio ar gyfer Symudedd a dogfennau cysylltiedig eraill.
4. \*Trwy gytundeb, ar Fathau 3 i 6a, gellir lleihau palmant botymog yr Ysgol, ond nid y llinellau tram, 1.2m o hyd.



# Safonau Dylunio Technegol Cyngor Caerdydd


## Adran E – Safonau Adeiladu

### Atodiad E : Dethol Patrymau a Lliwiau Palmant Botymog

#### A Palmant Pothellog<sup>19</sup>

1. Dyma'r palmant mwyaf cyffredin ac yn nodweddiadol mae mewn coch ar gyfer croesfannau rheoledig a llwydfelyn ar gyfer croesfannau heb eu rheoli. Fodd bynnag, i groesfannau rheoledig, y canllawiau yw y gall y lliw amrywio i liw cyferbyniol arall pan fo angen, ond mae gwaharddiad ar ddefnyddio coch ac eithrio mewn croesfannau rheoledig. Gellir gwneud defnydd o gysiau bandio cyferbyniol a newidiadau lleol mewn lliw palmant lle nad yw'r lliw palmant cyffredinol yn cyferbynnu â'r slabiau.

- 1.1 Gweler Gynllun Slabiau Palmant Pothellog yn Ffigur 2 y canllaw ac mae'n 6 rhes a cholofn ar slab sgwâr 400 mm.



- 1.2 Mae gosodiad y slabiau bob amser yn 'L' ar gyfer croesfannau rheoledig.
  - Isafswm dyfnder "troed" yr L yw 800 mm, er ei bod yn ymddangos ar Ffigur 4 ar bont y droed (lle mae blaen y "goes" yn cwrdd â'r droed), byddai'n gyfartal â'r "bodïau" ond nid y "sawdl" gan fod y "goes" yn rhoi'r dyfnder angenrheidiol.
  - Gall siapiau cymhleth ddigwydd pan fydd croesfannau ar ddwy fraich ar wahân yn rhyngweithio, gweler Ffigur 5 y canllaw.
  - Dengys y canllaw "goes" yr L yn ymestyn yn ôl i'r llinell adeiladu, (neu'n ymwithio o ffordd ymyl - Ffigur 3) ond mae argymhelliad yn 1.5.1.4 pe bai'r llinell adeiladu ar gwrth blaen sy'n hygyrch i'r cyhoedd, y dylid ceisio cytundeb y perchennog tir i ymestyn y "goes" i'r llinell adeiladu ei hun.

<sup>19</sup> Yn y ddogfen hon, defnyddir y termau canlynol ar gyfer palmant botymog: **Palmant Pothellog** i Ffigur 2: Yn cael ei adnabod yn briodol fel "Arwyneb Pothellog i Bwyntiau Croesi i Gerddwyr." Mae hwn yn Wyneb Rhybuddio a dim ond ar gyrbau is ar gyfer croesfannau rheoledig a heb eu rheoli y mae i'w ddefnyddio

# Safonau Dylunio Technegol Cyngor Caerdydd

## Adran E – Safonau Adeiladu

### Atodiad E : Dethol Patrymau a Lliwiau Palmant Botymog


1.3 Mae'r cynllun ar gyfer croesfannau heb eu rheoli yn fwy cymhleth nag y mae llawer o bobl yn ei feddwl - h.y. nid yw'n o leiaf 800 mm ar y dimensiwn byrraf. Y gwir ofynion yw:-

- 400 mm o ddyfnder lle mae'r groesfan wedi'i mewnosod o fwy na 2 fetr o'r llinell adeiladu. (Ffigur 6)
- 1200 mm o ddyfnder lle mae'r groesfan o flaen y llinell adeiladu. (Ffigur 7)
- 800 mm o ddyfnder lle mae'r groesfan ar rhyw bwynt arall ar bellter o'r gyffordd. (Ffigur 9)

### B Palmant Ysgol a Llinellau Tram<sup>20</sup>

1. Dyma'r palmant sydd ail fwyaf poblogaidd i'w ddefnyddio ger y brif ffordd gerbydau. Mae'n bwysig nodi bod y palmant hwn yn wahanol o ran ffurf i balmant rhesog sydd â dwywaith gymaint o asennau crwn cul ac o ganlyniad nid ydynt yn gyfnewidiol. Er mwyn osgoi amheuaeth mewn manylebau, ni ddylid byth â chymhwyso'r term "Rhesog" i Balmant Ysgol neu Linellau Tram.

1.1 Gweler Gynllun Slabiau Palmant Ysgol a'r Llinellau Tram yn Ffigur 19 y canllaw, ac mae'n cynnwys 4 asen wastad, 30 mm o led, ar slab sgwâr 400 mm. Mae'r slabiau hyn fel rheol yn llwyd ac mae hyn yn rhannol oherwydd eu bod yn arwyneb gwybodaeth, yn hytrach nag un sy'n rhybuddio.



1.2 Lle mae cerddwyr ar droedffordd yn mynd i mewn i ardal a rennir, dylid gosod y slabiau mewn patrwm Ysgol, hynny yw gyda'r asennau ar ongl dde i'r cyfeiriad teithio. Dangosir hyd y palmant

<sup>20</sup> **Palmant Ysgol a Llinellau Tram** i Ffigur 28: Yn cael ei adnabod yn briodol fel "Arwyneb llwybr beicio/troedffordd a rennir wedi eu gwahanu" gyda'r cyfeiriadedd yn pennu'r enwau a ddefnyddir. Defnyddir y rhain ar y rhyngwyneb rhwng Troedffordd a Naill ai Ardaloedd a Rennir neu Ffyrrd Beiciau.

# Safonau Dylunio Technegol Cyngor Caerdydd

## Adran E – Safonau Adeiladu

Atodiad E : Dethol Patrymau a Lliwiau Palmant Botymog botymog, a fesurir ar hyd llinell y droedffordd, fel 2.4 metr, ond gweler Adran B1.3.

- 1.3 Nodir bod y cynllun yn C Mathau 1 a 2 yn ymddangos yn wahanol i'r defnydd Symudedd Cynhwysol 4.2.
- i) Fodd bynnag, mae hyn yn cael ei wrthddweud gan y tabl dilynol nad yw'n sôn am y fynedfa o droedffordd i ardal a rennir.
  - ii) Mewn cyferbyniad, gall y cynlluniau yn y Canllawiau ar Ddefnydd Arwynebau Palmant Botymog (ond?) gael eu dehongli (Ffigur 30 B, ar gyfer Llwybr Cerddwyr yn hytrach na'r droedffordd - 31 B a 32 yn dangos achos lle mae llwybr cerddwyr yn dod i mewn ac yn gadael ardal a rennir.

Yn y cyfan heblaw'r cynlluniau mwyaf sylfaenol, mae'r defnydd o balmant rhybuddio rhesog fel y disgrifir yn Symudedd Cynhwysol yn cynnwys y materion canlynol

- iii) Yn achos cerddwyr â nam ar eu golwg yn wynebu palmant botymog rhybuddio rhesog wrth fynd i mewn i ardal a rennir, ni fyddent yn ymwybodol o fath a lleoliad y "peryl". Ar ôl gadael yr ardal, ni allent fod yn siŵr a oeddent ar fin dod ar draws peryl arall neu'n gadael yr ardal beryglus.
- iv) Petaent yn mynd i mewn i ardal a rennir trwy ardal balmantog resog ac yna'n gadael trwy llwybr cerdded ar wahân ar balmant llinellau tram, byddent yn ansicr os oeddent wedi mynd i mewn i ardal a rennir ynteu'n gadael.
- v) Yn yr un modd, gan deithio i'r cyfeiriad arall, byddai eu hymweliad cyntaf â'r palmant rhesog wrth fynd i mewn i'r droedffordd.

Ni fydd unrhyw un o'r achosion hyn yn digwydd os defnyddir palmant Ysgol ac eithrio'r achos unigol lle mae llwybr cerddwyr yn mynd i lwybr beicio fel yn Ffigur 30 B.

Trafodir sut mae beicwyr yn dod i mewn ac yn gadael yr ardaloedd hyn yn Adran G Pwyntiau codi a gollwng beiciau.

- 1.4 Mae'r dimensiynau yn y safon yn ymwneud ag achosion lle mae llwybr a rennir, fel mewn llwybr cerdded cyfochrog â thrac beiciau ar wahân mewn ardal sydd naill ai'n llwybr cerdded yn unig neu'n droedffordd/beicio a rennir. Mae hwn yn ddimensiwn cymharol fawr, o'i gymharu dyweder â'r 1.2 metr ar gyfer troedffordd sy'n dynesu'n uniongyrchol at ffordd (Adran A1.2 ail fwled).
- Ar y sail hon mae'r 2.4 metr yn berthnasol lle mae'r llwybrau'n cael eu gwahanu gan ei bod yn rhoi defnyddiwr â nam ar eu golwg sy'n mynd i mewn i'r patrwm llinellau tram y pellter i drosglwyddo i batrwm Ysgol heb orfod troi yn ôl i ganfod a ydynt wedi newid yn llwyddiannus i'r ochr gywir. Yn unol â hynny, os oes angen llinellau tram botymog, yna dylai ardal y palmant botymog llinellau tram ac ysgol fod yn 2.4 metr.

# Safonau Dylunio Technegol Cyngor Caerdydd


## Adran E – Safonau Adeiladu

### Atodiad E : Dethol Patrymau a Lliwiau Palmant Botymog

- Mewn achosion eraill lle mae troedffordd yn ymuno, neu adael, troedffordd-llwybr beicio a rennir, ystyrir bod ardal o gyfrwng botymog 1.2 metr o hyd yn ddigonol.
- 1.5 Pan fo'r droedffordd wedi ei hehangu i greu troedffordd-llwybr beicio ar y cyd, dylid gosod palmant Ysgol cyn dechrau'r newid i'r lled ehangach.
  - 1.6 Lle mae llwybr beicio yn ymuno â throedffordd-llwybr beicio a rennir mewn llinell syth, gosodir y palmant mewn patrwm llinellau tram, sy'n unol â chyfeiriad y teithio ac eto mae'r hyd penodedig yn 2.4 metr.
  - 1.7 Pan fydd beicwyr yn ymuno neu'n gadael troedffordd-llwybr beicio a rennir yn uniongyrchol o neu i'r ffordd gerbydau ar bwynt "codi/gollwng", dylid cael cynllun fel yr un yn Adran G Pwyntiau Codi a gollwng Beiciau.

### C Palmant Rhesog<sup>21</sup>

1. Fel arfer, mae'r palmant hwn wedi'i gyfyngu i frig a gwaelod rhesi o risiau ac ar waelod rampiau i fyny i lwyfannau Ar y Stryd, ond nid i fyrddwyr bws. Nodir defnydd arbennig ar groesfannau Cyfochrog (Sebra a beicio) gan nad oes canllawiau cenedlaethol. Trafodir y cyngor gwrthdrawiadol yn y canllaw sy'n ymwneud â lle mae troedffordd yn ymuno ag ardaloedd a rennir ym Mharagraff F isod.
2. Mae gan Palmant Rhesog wyth asen gron ar slab 400 mm. Yn nodweddiadol mae'r slabiau hyn yn llwydfelyn neu, fel gyda Palmant Pothellog, yn lliw sy'n cyferbynnu â'r palmant. Yn gyffredinol, byddid yn osgoi coch, ond eto cynigir defnydd arbennig ar groesfannau Cyfochrog (Sebra a beiciau).



<sup>21</sup> **Wyneb Rhybuddio Perygl Rhesog** i Ffigur 19: Ni ddylid defnyddio hyn oni bai bod perygl uniongyrchol i ddefnyddwyr â nam ar y golwg wrth symud drosto.


# Safonau Dylunio Technegol Cyngor Caerdydd

## Adran E – Safonau Adeiladu

### Atodiad E : Dethol Patrymau a Lliwiau Palmant Botymog

#### D Palmant Llwybr Tywys<sup>22</sup>

1. Mae hwn yn Arwyneb Amwynder ac mae fel arfer yn cael ei liwio i gydweddu â'r palmant o amgylch. Tra nodir ei rôl yn disodli'r canllawiau traddodiadol pan nad oes cwrw, mae darllen y cyngor llawn yn rhoi arwydd y dylai hyn fod er mwyn ffurfio llwybr, ac nid i amlygu perygl.
2. Mae ganddo ddefnydd potensial i ddangos ymylon allanol llwybr rhwng cyrbau is ar draws ynys fawr i gerddwyr, lle nad oes llinellau cerbydau neu reiliau diogelwch yn bresennol.
  - 2.1 Pan gaiff ei ddefnyddio yn y modd hwn, byddai'n well i'r palmant gymryd y llinell syth rhwng y ddwy ran o balmant botymog.
  - 2.2 Os caiff ei osod ar yr ymylon allanol, gan ganiatáu o leiaf 800 mm o led, yna dylid darparu bwlch canolog o tua un metr o arwyneb esmwyth ar gyfer symud cadeiriau olwyn a chymhorthion symudedd tebyg yn hawdd.
  - 2.3 Os caiff ei roi yn y canol, yna byddai'n rhaid iddo ddechrau o'r ymylon sydd bellaf i ffwrdd o'r gyrchfan i sicrhau bod defnyddiwr â nam ar eu golwg yn debygol o'i gwrrdd.
3. Mae gosodiad yr asennau, gyda phum asen lydan gron yn ei wneud yn debyg i'r wyneb Ysgol/ llinellau tram.



#### E Arwynebau eraill


1. Mae nifer o wynebau eraill ond mae'r rhain yn gysylltiedig â gosodiadau penodol ac mae angen eu nodi yn ôl yr angen. Y rhain yw:-
  - 1.1 Wyneb Rhybuddio Ymyl Platfform (Oddi ar y Stryd) i Ffigur 24:
    - Mae hwn ar gyfer gorsafoedd rheilffordd ac mae'n wyneb pothellog diemwnt sy'n weddol debyg i balmant pothellog llwydfelyn.

<sup>22</sup> Wyneb **Amwynder Llwybr Tywys** i Ffigur 36: Noder nad yw hwn wedi'i fwriadu fel wyneb rhybuddio ond i ddarparu arweiniad.

# Safonau Dylunio Technegol Cyngor Caerdydd


## Adran E – Safonau Adeiladu

### Atodiad E : Dethol Patrymau a Lliwiau Palmant Botymog



#### 1.2 Wyneb Rhybuddio Ymyl Platfform (Ar y Stryd) i Ffigur 26

- Bwriedir hwn ar gyfer platfformau Tram (Tramwy Cyflym Ysgafn) sydd â gwahaniaeth uchder mwy o'r ffordd gerbydau (200 i 915 mm) na byrddau bws, ond gellir defnyddio'r wyneb hwn yn enwedig os oes risg mynediad o ffryntiadau neu lwybrau cyfagos.



#### 1.3 Arwyneb Gwybodaeth (Arwyneb Amwynder)

- Bwriedir i hwn weithredu fel canllaw i leoliad unrhyw amwynder sy'n amrywio o Dwll yn y Wal Arian Parod i Doiledau. Y bwriad yw tynnu sylw at yr amwynder, nid i rybuddio o'i bresenoldeb.
- Nid oes patrwm penodol gan fod rhaid pennu hyn yn ôl gofynion penodol y safle.


# Safonau Dylunio Technegol Cyngor Caerdydd

## Adran E – Safonau Adeiladu

### Atodiad E : Dethol Patrymau a Lliwiau Palmant Botymog

#### F Croesfannau Cerddwyr/Beicio Cyfochrog

1. Mae'r rhain yn fath newydd o groesfan a gyflwynir yn Rheoliadau Arwyddion Traffig a Chyfarwyddyd Cyffredinol dyddiedig 2016 (TSRGD 2016) ac nid oes unrhyw ganllawiau ar gael ar hyn o bryd o ran palmant ar droedffordd.



Darn o fwrdd arwyddion – Atodlen 14, Rhan 2 Eitem 53 – Tud. 476

2. Ystyrir mai palmant rhesog coch, wedi'i osod gyda'r asennau yn gyfochrog i'r cwrn, yw'r dewis priodol a dylai'r dyfnder fod yn 800 mm, wedi'i fesur yn ôl o'r cwrn. Gall y bwch rhwng y ddwy set o balmant botymog naill ai gael ei adael yn blaen, neu ei balmantu â phalmant rhesog mewn lliw arall.

# Safonau Dylunio Technegol Cyngor Caerdydd

## Adran E – Safonau Adeiladu


### Atodiad F : Manylion Adeiladu Amrywiol

#### 1. Manylion Cwrw Ymylon Safonol

1.1 Rhaid i dir preifat ddraenio oddi ar y Briffordd neu fod â draeniad ffiniau preifat.

1.2 Mae'n rhaid i lwybrau troed a beiciau ger y ffordd gerbydau ddraenio tuag at y ffordd gerbydau.

- Lle mae llain ymyl ffordd ar yr ochr uchel, rhaid bod cwrw ymylon ER ar yr ochr uchel gyda stand unionsyth o 25 mm (ar y ddwy ochr).
- Lle mae llain ymyl ffordd ar yr ochr isel, rhaid bod cwrw ymylon ER ar yr ochr isel gyda stand unionsyth uwchlau lefel y llain ymyl ffordd orffenedig.
- Rhaid i unrhyw lain ymyl y ffordd fod yn lefel neu ar ffurf dysgl i annog treiddiad dŵr glaw.






# Safonau Dylunio Technegol Cyngor Caerdydd


## Adran E – Safonau Adeiladu

### Atodiad F : Manylion Adeiladu Amrywiol



## 2. Manylion Caead Safonol

- 2.1 Mae'r manylion hyn yn cwmpasu pob sefyllfa, gan gynnwys mewn mannau palmant caled ac wedi'u tirlunio.
- 2.2 Mewn mannau palmant caled, mae'r ffrâm 150 mm o ddyfnder yn rhwystro'r ardaloedd o balmant tenau rhag torri.



- 2.3 Pan roddir caead ar y ffordd gerbydau, rhaid iddo gael ymwrthedd sgidio gwydn iawn, fel clawr cyfansawdd.

# Safonau Dylunio Technegol Cyngor Caerdydd

## Adran E – Safonau Adeiladu


### Atodiad F : Manylion Adeiladu Amrywiol

2.4 Pan roddir caead mewn tirlun meddal, mae'r amgaead concriid 100 mm o led yn darparu amgylchedd gweithio diogel ac yn lleihau'r problemau â glaswellt yn dioddef o sychder.

3. Croesdoriad o balmant botymog mewn troedffordd hyblyg wedi ei phalmantu

3.1 Dengys hyn y manylion angenrheidiol ar gyfer ymylon EF o amgylch palmant botymog mewn ardaloedd o droedffordd hyblyg wedi ei phalmantu.


3.2 Nid oes angen ymylon EF lle mai blociau neu slabiau palmant yw'r palmant cyfagos, ond gellir eu darparu os dymunir.



4. Croesdoriad o droedffyrdd ar draws lôn wrthlif gerbydau

4.1 Dyma fanylyn nodweddiadol pan fo troedffordd yn parhau ar draws lôn wrthlif gerbydau sy'n arwain at ofod a rennir neu fynediad preifat. Noder y gall y droedffordd fod â phalmant caled (fel y dangosir) neu hyblyg, ond i'r safon ofynnol.

4.2 Rhaid i stand unionsyth cwrw gerllaw'r ffordd gerbydau fod rhwng 25 a 35 mm.



5. Croesdoriad i balmant botymog mewn lôn wrthlif gerbydau argyfwng


5.1 Dim ond pan na ellir gwahanu'r ddau gyfleuster y dylid defnyddio'r manylyn hwn.

# Safonau Dylunio Technegol Cyngor Caerdydd

Adran E – Safonau Adeiladu


Atodiad F : Manylion Adeiladu Amrywiol

- 5.2 Rhaid gollwng y cwrb 0 i 6 mm gerllaw'r palmant botymog, ond ei godi i 50 mm i weddill y lôn wrthlif gerbydau.



## 6. Cynllun lôn wrthlif gerbydau

- 6.1 Yn absenoldeb gwybodaeth dracio, mae hwn yn pennu hyd y cwrb is sydd ei angen ar gyfer y cynllun mynediad hwn.



# Safonau Dylunio Technegol Cyngor Caerdydd

Adran E – Safonau Adeiladu

Atodiad F : Manylion Adeiladu Amrywiol

## 7. Manyleb Cerbyd Sbwriel CC

7.1 Dylid defnyddio'r wybodaeth hon ar gyfer asesiad 'AutoTrack' o gynlluniau priffyrdd

### Olympus 6x2RS RCV Corff Cul, Llyfn (19N)

Cyf. Llun	Darn cerbyd	Dimensiynau mewn mm
V1	Pellter rhwng echelydd cyffredinol	5250
V2	Hyd cyffredinol	9190
V2	Hyd cyffredinol gyda thinbren wedi'i godi	10270
V3	Echel flaen i flaen y corff cywasgedig	650
V4	Trosgrog blaen	1665
V4	Trosgrog blaen gyda chaban ar ogwydd	3465
V5	Trosgrog cefn	2285
V5	Trosgrog cefn gyda thinbren wedi'i godi	3145
V6	Uchder cyffredinol	3450
V6	Uchder cyffredinol gyda thinbren wedi'i godi	5100
V7	Uchder ar flaen y beipen fwg - enwol	3500
V8	Uchder to'r caban	3130
V8	Uchder to'r caban gyda chaban ar ogwydd	3690
V9	Uchder llawr y caban	885
V10	Uchder stepen gyntaf y caban o'r ddaear	495
V11	Uchder y grawen	1050
V12	Clirio'r ddaear ar ran isaf y cerbyd	250
V13	Clirio'r ddaear gyda thinbren	410



# Safonau Dylunio Technegol Cyngor Caerdydd

## Adran E – Safonau Adeiladu

### Atodiad F : Manylion Adeiladu Amrywiol


8. Ystyriaethau Dylunio Cyrbau Ataliol
  - 8.1 Er bod llociau â chanllawiau'n cyfyngu cerddwyr i'r Parth Croesi, cyrbau ataliol sy'n cyflwyno manau eraill. Gweler y brasluniau.
    - Y Parthau Heb eu Diogelu yw lle nad oes mynediad i'r ynys na disgwyliad y bydd gweithrediad y signalau cerddwyr yn cynnig gwarchodaeth. Mae'r manau hyn naill ai'n 'anhygyrch' neu'n lôn gerbydau gyffredinol mewn dyluniadau gan ddefnyddio canllawiau.
    - Y Parth Cyfle yw lle gall rhai cerddwyr fynd i'r ynys neu ei gadael dan warchodaeth y signalau i gerddwyr heb orfod (o dan amgylchiadau arferol) dod ar draws cerbydau. Os byddant yn dilyn gweithredoedd eraill yn y Parth Croesi ar gam, byddan nhw'n ymhellach o unrhyw draffig sy'n nesáu a byddant yn cael eu diogelu i raddau cymharol.
    - Ymddengys fod y Parth Amwys yn debyg i Barth Cyfle, ond mae unrhyw berson sy'n croesi ar hyn o bryd yn nes at gysylltiad â thraffig sy'n symud na'r rhai sy'n defnyddio'r Parth Croesi, boed hynny'n croesi yn ystod cam cerddwyr neu rhwng y camau. Felly gall unrhyw berson sy'n defnyddio'r Parth Amwys sy'n dilyn gweithredoedd y rhai yn y Parth Croesi fod mewn mwy o risg nag y gallant ragweld.
  - 8.2 Ni all unrhyw ddyluniad atal gweithredoedd anniogel gan ddefnyddwyr, ond ni ddylent gynyddu'r risg drwy gamarwain y defnyddiwr anwyliadwyr neu'r defnyddiwr y mae ei sylw'n cael ei dynnu. Yn seiliedig ar yr uchod, nid oes fawr o fudd a risg gynyddol bosibl o ddefnyddio cyrbiau ataliol gyda'r Patrwm Croesgam Anghymeradwy, er bod angen ystyried hefyd y gall canllawiau fod yn beryglus i feicwyr a maglu cerddwyr yn y lôn gerbydau.
  - 8.3 Dylid creu'r cwrbyn ataliol fel yn y llun gan ddibynnu ar ba fath o gyrbau a ddefnyddir - cyrbau HB neu gadwraeth. Rhaid i'r mewnlenni fod yn flocciau palmant 200 x 100 x 80 mm megis Charcon Andover Tegula.

# Safonau Dylunio Technegol Cyngor Caerdydd


Adran E – Safonau Adeiladu

Atodiad F : Manylion Adeiladu Amrywiol

## Croesfannau Annibynnol



Patrwm Croesgam i'r Chwith i'r Dde (a Ffefrir)




Patrwm Croesgam i'r Dde i'r Chwith (Anghymeradwy)

# Safonau Dylunio Technegol Cyngor Caerdydd


Adran E – Safonau Adeiladu

Atodiad F : Manylion Adeiladu Amrywiol

## Croesfannau wrth Gyffyrdd




Patrwm Croesgam i'r Chwith i'r Dde (a Ffefnr)




Patrwm Croesgam i'r Dde i'r Chwith (Anghymeradwy)

## Manylion Adeiladu Cyrbau Ataliol



Manylyn Cwrbyn Atal HB



Cwrbyn Cadwraeth  
Manylyn Cwrbyn Ataliol HB

# Safonau Dylunio Technegol Cyngor Caerdydd

Adran E – Safonau Adeiladu

Atodiad G – CDC 1996 Mynegai HSM

Mae Safonau Cyngor Caerdydd wedi'u diddymu ac yn eu lle mae Safonau Fframwaith Priffyrdd De-ddwyrain Cymru. <https://sewh.co.uk/>

Gellir cyhoeddi manylion sy'n benodol i'r cynllun yn ychwanegol at yr uchod.



# Cardiff Council Technical Design Standards

## Mynegai

### MYNEGAI

Addasiadau neu Welliannau i'r Briffordd Gyhoeddus, 3  
Archwiliad Cyfun, 16, 24  
Archwiliad Cyfunol, 6  
Archwiliad Diogelwch ar y Ffyrdd, 6  
Archwiliad Diogelwch Ffordd, 23, 27  
Ardal biniau graean, 37  
Ardal Colofn Goleuadau, 37  
Ardaloedd aros croesfan dan reolaeth, 36  
Arosfannau bws gyda bwrdd bws, 36  
Arwyddion Ffyrdd, 32  
Arwyddion Traffig, 7, 49, 71  
Arwyneb Carreg Naturiol, 45  
Arwyneb Ffrithiant Uchel, 44  
**Arwynebau eraill**, 69  
Asesiad Effaith o Gydraddoldeb, 24  
Athroniaeth Ddylunio, 16, 25  
Atodiad A: Gofynion Craidd Safonau Priffyrdd, 2  
Atodiad B: Lleoliad Pwyntiau Croesi Cerddwyr, 2  
Atodiad D: Dyluniad Pwyntiau Codi a gollwng Beiciau, 2  
Atodiad F - Manylion Adeiladu Amrywiol, 2  
Atodiad G – Safonau Adeiladu Cyngor Caerdydd, 2  
balmant botymog, 49, 69, 71, 74  
**Beicio Cyfochrog**, 49, 71  
Bolardiau, 32  
Bwrdd cyflymder, 38  
Bwrdd Cyflymder, 44  
Bydd yr amser rhagamcanol i gwblhau'r gymeradwyaeth dechnegol, 7  
Caeadau tyllau archwilio, 33, 39  
Cais Gorchymyn Rheoli Traffig (GRhT), 7  
Canllaw Dylunio i Fyw Caerdydd, 16  
Canllawiau Dylunio i'r Ddeddf Teithio Llesol, 16, 22, 25, 28  
Canllawiau Dylunio Parth Cartref, 16  
Canllawiau Dylunio Parthau Cartref, 22  
Celfi Stryd, 32, 39  
celloedd gwraidd, 33  
Chlustog Cyflymder, 44  
Contractwyr Cymeradwy, 9, 13  
Creu Priffyrdd Newydd ar gyfer eu Mabwysiadu, 3  
**Croesfannau (Cerddwyr/Beicio) Cyfochrog**, 49  
**Croesfannau Achlysurol**, 49  
**Croesfannau Ceffylau "Pegasus" Cyfochrog**, 49  
**Croesfannau Cerddwyr**, 71  
**Croesfannau rheoledig**, 49  
Cydymffurfio/ Gofynion Cyn-cychwyn, 8  
cyfathrebu, 7, 13  
Cyffordd ar Fwrdd Arafu, 44

# Cardiff Council Technical Design Standards

## Mynegai

Cyffyrdd Llwybrau gyda Ffyrdd Gerbydau, 29  
Cyffyrdd Mynediad, 26  
Cyffyrdd rhwng Llwybrau neu Draciau, 29  
Cyflenwi i'r Cartref, 19  
Cyfleusterau Cerddwyr a Beicio, 28  
**Cymeradwyaeth Dechnegol**, 6, 10  
Cymeradwyaeth Dylunio Manwl GA, 8  
CYMERADWYAETH Trefniadau Cyffredinol Rhagarweiniol (GA), 8  
Cymhwyso Safonau Dylunio, 22  
Cyngor ar Elfennau Dylunio, 2, 3, 17, 39  
Cynllun Cyflwyno/Adfeddu Tir, 9  
Cynllun Ffordd Datblygiad Preswyl, 2  
Cynllun Ffyrdd Diwydiannol a Masnachol, 2  
Cynllun TRO, 9  
Cyrbau is, 39  
Cyrbau Is, 29, 30, 47, 51, 52, 53, 54  
Cytundeb Cyfreithiol, 8  
Dadansoddiad Effaith ar Gydraddoldeb, 16, 25  
Dadansoddiad Llwybr Ysgubedig, 24  
Deddf Cydraddoldeb 2010, 16, 24  
Deddf Teithio Llesol, 16, 23  
Deddfwriaeth Berthnasol, 3  
Detholiad Palmant Bloc, 45  
Diogelu Drwy Ddylunio, 16  
Diogelu'r Haen Rhwymyn, 41  
Draeniad Priffyrdd, 8  
Draenio Priffyrdd, 32, 41  
Dyfnder Ardal Cwrn Is Casglu/Gollwng Beiciau, 40  
Dylunio Ffyrdd Diwydiannol a Masnachol, 3  
Dylunio Ffyrdd Preswyl, 3  
Dylunwyr Goleuadau Stryd, 13  
Ffordd Wrthlif Gerbydau Preswyl, 43, 44  
Ffyrdd Mynediad Preswyl, 38, 39, 41, 42, 45  
**Fwrdd Cyflymder**, 52  
Fynediad i Droedffordd/Ffordd Beicio a Rennir, 30  
Giatiau Mynediad, 26  
goleuadau stryd, 7, 9, 11, 29, 32  
Goleuadau Stryd, 7, 8, 9, 32, 33  
Goleuadau Stryd Contractwyr, 13  
Gorchymynion Rheoleiddio Traffig, 31  
Gosod cysgodfan fws, 36, 37  
Gosod cysgodfan fws amgaeedig yng nghefn y droedffordd, 36  
Gostegu traffig, 32  
Graddiant, 22, 25, 28, 51, 53, 54  
Graddiant Ramp, 39  
Groesfannau Cerddwyr, 29  
Gwneuthuriadau Adeiladu Priffyrdd Mabwysiedig, 41  
Hierarchaeth a Safonau Ffyrdd, 18, 25

# Cardiff Council Technical Design Standards

## Mynegai

Hyd y Llwyfan, 38  
Lawlyfr Archwiliad Diogelwch Ffyrdd Cyngor Caerdydd, 16  
Llawlyfr Dylunio Ffyrdd a Phontydd, 16, 22  
Llawlyfr Strydoedd, 16, 22  
Llawlyfr Tir y Cyhoedd Caerdydd, 16, 23, 41, 45  
Lled Cerbydau ar Droadau, 26  
Lled y croesfannau, 39  
Lleiafswm troedffordd glir a lled troedffordd glir, 36  
Lleoliad Caeadau Tyllau Archwilio, 39  
Llinellau Stopio Ymlaen i Feicwyr, 31  
Llwybr Trafnidiaeth Gyhoeddus, 20, 44, 45  
Llyfryn Manyleb, 9  
Llythyr o Fwriad, 5, 6, 7, 15  
**Lonydd Gwrthlif Cerbydau**, 2, 40, 53, 55  
Manyleb Cerbyd Sbwriel CC, 76  
Manylebau a Safonau Cynhyrchwyr, 35  
Manylion Caead Safonol, 73  
Manylion Cwrw Ymylon Safonol, 72  
Manylion Cyswllt Ymlaen Llaw Datblygiadau Eraill CC, 9  
Manylion Troed Ramp, 39  
Marciau Ffyrdd ac Arwyddion Ffyrdd, 8  
Materion Technegol, 8  
Math 1 Ffordd Breswyl, 38  
Math 2 Ffordd Breswyl, 38  
Meddal Cymeradwy, 13  
Nghanllaw Dylunio Beicio Caerdydd, 16  
Nid argymhellir gosod cysgodfan, 36  
Offer Cyfathrebu, 7  
Palmant Ataliol Cerddwyr, 31  
Palmant botymog, 28, 40  
**Palmant Llwybr Tywys**, 69  
**Palmant Pothellog**, 43, 65, 68  
**Palmant Rhesog**, 43, 68  
**Palmant Ysgol a Llinellau Tram**, 66  
Prif Ddimensiynau, 36  
Prif Ffordd Allanol, 41  
Prif Ffyrdd Mewnol, 41, 42  
Prif Ffyrdd Mynediad, 38, 39, 41, 42  
**Proses Derbyn Amodol**, 6  
Proses Gymeradwyo Adran 278 ac/neu Adran 38, 5  
Proses Gymeradwyo Adran 38 ac Adran 278, 3  
Pwyntiau Cyswllt, 7  
Pwyntiau Mynediad Bach, 28  
rampiau Byrddau Arafu, 33, 39  
Rhagor o Ganllawiau, 27  
Rhaid cynllunio ffyrdd ystadau diwydiannol, 25  
Rhaid hefyd dylunio ffyrdd ystadau, 25  
Rhaid i ddatblygiadau Diwydiannol a Masnachol, 25

# Cardiff Council Technical Design Standards

## Mynegai

Rhaid i ffyrdd ystadau ddiwydiannol a masnachol, 25  
Rheiliau Diogelwch Cerddwyr, 29, 30, 32  
Rhestr Luniadau nodweddiadol/ generig, 9  
Rhoddir Amodau Derbyn Amodol Nodweddiadol, 7  
Rhwystrau Gwrth-Beiciau Modur, 32  
RSA, 6, 7, 8, 12, 22, 23, 32  
Safonau Adeiladu, 2, 4, 32, 33  
Safonau Priffyrdd Caerdydd, 35  
Signalau traffig, 7, 8, 31  
Slabiau palmant botymog, 43  
Strategaeth Cymeradwyo Grŵp Ffocws, 8  
stribed gwasanaeth, 21  
Symudedd Cynhwysol, 12, 16, 22, 25, 28, 54, 67  
Tabl Trwch yr Is-sylfaen a Haen Gapio CBR Arfaethedig, 46  
Teledu Cylch Cyfyng a Chyfathrebiadau, 8  
theledu cylch cyfyng trwy ddylunydd cymeradwy, 7  
thwmpath ffordd, 38  
Thwmpathau Ffordd, 33, 39  
Tirlunio, 9, 13, 33  
Tirweddu Meddal, 8  
Trafnidiaeth Gyhoeddus, 21, 38, 39, 41, 42  
Trefniadau Cyffredinol, 8, 9  
Troedffordd/Llwybr beicio, 37, 42, 43  
Troedffyrdd a Llwybrau, 29  
Twmpath Ffordd, 44  
Uchder uwchben arwyneb presennol neu sy'n taflu allan, 38  
Uchder y Cwrn ar Fyrddau Cyflymder a Chyffordd, 30  
Uchder y cwrn cyfagos, 39  
Uchder y Cwrn Gweddilliol, 40  
Y Broses Gymeradwyo Ddylunio Nodweddiadol, 2, 3  
Ynysoedd ar gyfer signalau traffig, 38  
Ynysoedd Croesgam i Gerddwyr, 28  
Ystyriaethau Dylunio Cyrbau Ataliol, 77

RHESTR O'R TERMAU WEDI'U MYNEGEO YN Y FERSIWN GYMRAEG